**Rhif:** WG30066

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

# Diwygio llywodraethu ysgolion: fframwaith rheoleiddio

## Cynigion i ddiwygio a chydgrynhoi fframwaith rheoleiddio llywodraethu ysgolion

Dyddiad cyhoeddi: 11 Tachwedd 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 17 Chwefror 2017

OGL © Hawlfraint y Goron 2016

# Diwygio llywodraethu ysgolion: fframwaith rheoleiddio

**Golwg gyffredinol**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn rhanddeiliaid am gynigion i ddiwygio a chydgrynhoi fframwaith rheoleiddio llywodraethu ysgolion yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys diddymu ac ail-wneud y rheoliadau a ganlyn a elwir yn "Rheoliadau Presennol" yn y ddogfen hon:

- Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000
- Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd (Cymru) 2005
- Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005
- Rheoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005
- Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006
- Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009
- Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014.

**Sut i ymateb**

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **17 Chwefror 2017** fan hwyraf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau perthnasol**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

*Canllaw i'r Gyfraith i Lywodraethwyr Ysgolion*
http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/fundingschools/school-governance/schoolgovguide/?lang=cy

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgynghoriadau

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:

Cangen Llywodraethu a Threfniadaeth Ysgolion
Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
ebost: SMED2@cymru.gsi.gov.uk

**Diogelu data**

**Sut y bydd eich barn a'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi inni'n cael eu defnyddio**

Bydd unrhyw ymateb y byddwch yn ei anfon atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â'r materion sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad hwn. Efallai y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn ei weld hefyd er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Efallai y byddwn hefyd yn cyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel rheol, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y sawl neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol. Os nad ydych eisiau i'ch enw neu eich cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb. Yna byddwn yn dileu'r wybodaeth honno.

Efallai y bydd enwau a chyfeiriadau yr ydym yn eu dileu'n cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, ond nid ydym yn credu y byddai hynny'n digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth a ddelir gan nifer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth nas cyhoeddwyd. Fodd bynnag, mae'r ddeddf hefyd yn ein caniatáu i beidio â datgelu gwybodaeth o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth nad ydym wedi ei datgelu, bydd raid i ni benderfynu ei rhyddhau neu beidio. Os bydd rhywun wedi gofyn am beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, mae honno'n ffaith bwysig y byddem yn ei hystyried. Fodd bynnag, ar brydiau efallai y bydd yna resymau pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad rhywun, er iddo ofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn er mwyn gofyn am ei farn cyn i ni benderfynu'n derfynol ynglŷn â datgelu'r wybodaeth

# Cynnwys

**Rhagarweiniad** **3**

**Rhan 1: Newidiadau arfaethedig i Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 (Rheoliadau 2005)** **6**
Aelodaeth cyrff llywodraethu 6
Cyfansoddiad cyrff llywodraethu 13
Penodiadau, cymwysterau, daliadaeth swydd, ymddiswyddo a therfynu gwasanaeth llywodraethwyr 18
Cyfarfodydd a thrafodion 21
Pwyllgorau cyrff llywodraethu 22

**Rhan 2: Newidiadau arfaethedig i Reoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 (Rheoliadau 2014)** **25**
Golwg gyffredinol 25
Aelodaeth cyrff llywodraethu ffederal 26
Cyfansoddiad cyrff llywodraethu ffederal 28
Ffedereiddio ysgolion newydd 30
Newidiadau eraill 31

**Rhan 3: Newidiadau arfaethedig i Reoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd (Cymru) 2005 (Rheoliadau 2005)** **32**
Golwg gyffredinol 32
Gwahaniaethau mewn cyrff llywodraethu ysgolion dros dro 32
Pwyllgorau cyrff llywodraethu dros dro 33

**Rhan 4: Newidiadau Arfaethedig i Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006 (Rheoliadau 2006)** **34**
Golwg gyffredinol 34
Gweithdrefnau disgyblu a diswyddo staff 34
Penodi pennaeth a dirprwy bennaeth 35
Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig – y ddyletswydd i hysbysu awdurdodau lleol 38

**Rhan 5: Newidiadau arfaethedig i Reoliadau Addysg (Cylch Gwaith) Cymru (Rheoliadau 2000)** **39**
Golwg gyffredinol 39
Rôl y corff llywodraethu 39
Rôl y pennaeth 40

**Rhan 6: Newidiadau arfaethedig i Reoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005 (Rheoliadau Lwfansau)** **41**

**Rhan 7: Newidiadau arfaethedig i Reoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009 (Rheoliadau 2009)** **42**

**Rhan 8: Addasiadau a diwygiadau arfaethedig i reoliadau** **43**

**Rhan 9: Amserlenni gweithredu, gan gynnwys gwneud Offerynnau Llywodraethu** **45**
Golwg gyffredinol 45
Amserlen gweithredu arfaethedig 45
Darpariaethau trosiannol ac arbedion ar gyfer pwyllgorau disgyblu a diswyddo staff a phanelau dethol penaethiaid/dirprwy benaethiaid 46

**Rhan 10: Asesiad effaith rheoleiddiol** **47**
Golwg gyffredinol 47
Costau i awdurdodau lleol 47
Buddion i awdurdodau lleol 48
Costau i gyrff llywodraethu ysgolion 48
Buddion i gyrff llywodraethu 49
Costau a buddion i Lywodraeth Cymru ac i gyrff eraill 49
Dadansoddiad o effeithiau a dylanwadau eraill gan gynnwys ar faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb 49

**Gwybodaeth ychwanegol** **51**

**Atodiad A: The Government and The Government and Staffing of Maintained Schools (Wales) Regulations 2017 [nid yw yn y ddogfen]**

**Atodiad B: Diwygio llywodraethu ysgolion: fframwaith rheoleiddio [nid yw yn y ddogfen]**

**Atodiad C: Explanatory memorandum to The Government and Staffing of Maintained Schools (Wales) Regulations 2017 [nid yw yn y ddogfen]**

**Atodiad D: Equality Impact Assessment (EIA) Template [nid yw yn y ddogfen]**

**Atodiad E: Children's Rights Impact Assessment (CRIA) Template [nid yw yn y ddogfen]**

**Atodiad F: Asesiad o Effaith ar yr Iaith Gymraeg [nid yw yn y ddogfen]**

# Rhagarweiniad

1. Mae oddeutu 23,000 o lywodraethwyr ysgolion yng Nghymru sy'n gwirfoddoli eu hamser, eu profiad a'u harbenigedd i helpu ein hysgolion. Mae gan gyrff llywodraethu rôl hanfodol ac anodd yn sicrhau llwyddiant ein hysgolion, drwy osod cyfeiriad strategol ar gyfer eu hysgol a dal y pennaeth yn atebol am ei pherfformiad addysgol ac ariannol.

2. Yn ogystal â'u swyddogaethau craidd gyda golwg ar berfformiad yr ysgol, bydd gan gyrff llywodraethu amrywiaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau eraill hefyd gan gynnwys penodi a disgyblu staff. Mae natur ac ehangder swyddogaethau a chyfrifoldebau cyrff llywodraethu ysgolion yn golygu bod rôl llywodraethwr ysgol yn un heriol ac anodd.

3. Er mwyn i gyrff llywodraethu weithredu'n effeithiol, credwn ei bod yn rhaid i sgiliau fod yn ystyriaeth sylfaenol pan fydd llywodraethwyr yn cael eu penodi ym mhob categori. Yn ogystal â hyn, rhaid i gyrff llywodraethu fod yn ddigon hyblyg i sicrhau bod ganddynt yr holl ystod o sgiliau sy'n ofynnol er mwyn i'w hysgol gael ei llywodraethu'n llwyddiannus.

**Pam rydym yn cynnig newidiadau i'r strwythur llywodraethu ysgolion?**

4. Yn ei adroddiad am *Ddarparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol*[1] y gair a ddefnyddiodd Robert Hill i ddisgrifio ansawdd a sgiliau cyrff llywodraethu ysgolion oedd *amrywiol.* Roedd hyn yn gyson â chynllun Her Ysgolion Cymru Llywodraeth Cymru a oedd hefyd yn codi pryderon am ansawdd llywodraethwyr ysgolion.

5. Mae'r naill adroddiad blynyddol ar ôl y llall gan Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru (Estyn) hefyd wedi sylwi ar natur amrywiol llywodraethu ysgolion, er bod yr adroddiadau diweddaraf yn dangos rhywfaint o welliant cyffredinol yn lefel yr her a gynigir gan gyrff llywodraethu. Mae'r gwelliant mwy diweddar hwn o bosibl wedi digwydd oherwydd cyflwyno hyfforddiant gorfodol ar gyfer llywodraethwyr ysgolion yn ddiweddar[2].

6. Yn ei adroddiad " *Step Change - A new approach for schools in Wales"*[3] pwysleisiodd y CBI hyn: "the focus for composition of governing bodies must be skills - ensuring the right people with the right skills are in place is the key to effectiveness". Casgliad yr Adroddiad oedd hyn: *"More freedom should be given to*

---

[1] http://gov.wales/docs/dcells/consultation/130621-delivery-of-education-report-en.pdf

[2] Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013 :http://www.legislation.gov.uk/wsi/2013/2124/contents/made/welsh fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir 2014 yn: http://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/1132/contents/made/welsh http://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/1132/contents/made Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Lywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2014 : http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2014/2225/contents/made/welsh a Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Lywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2016 : http://www.legislation.gov.uk/wsi/2016/137/contents/made/welsh.

[3] http://www.cbi.org.uk/cbi-prod/assets/File/pdf/step-change-a-new-approach-to-schools-in-wales.pdf

*governing bodies to determine composition based on skills, rather than representative roles such as parent governor, LA governor or staff governor".*

7. Argymhelliad y CBI felly oedd y dylid llacio cyfyngiadau cynrychiolaeth ar gyrff llywodraethu a chymryd camau i sicrhau bod rhagor o wirfoddolwyr o'r gymuned fusnes yn gallu gwasanaethu fel llywodraethwyr.

8. Casgliad Grŵp Gorchwyl a Gorffen llywodraethu ysgolion a sefydlwyd gan Weinidog Addysg a Sgiliau blaenorol i ystyried pa mor addas at y diben yw'r fframwaith llywodraethu ysgolion yng Nghymru, oedd bod angen i gyrff llywodraethu fod yn fwy medrus yn eu rôl llywodraethu a hefyd bod angen iddynt allu recriwtio'n ehangach er mwyn i'r unigolion gorau allu cyfrannu at lywodraethu ysgolion.

9. Argymhelliad y Grŵp oedd y dylid symud oddi wrth y model rhanddeiliaid presennol at ddull llywodraethu "Rhanddeiliaid a Mwy". Byddai'r dull hwn yn cadw cyfraniad gwerthfawr yr amrywiaeth o randdeiliaid sydd yn perthyn i'r model llywodraethu ysgolion presennol, ond byddai'r agwedd 'Mwy' yn gadael i gyrff llywodraethu fod yn ddigon hyblyg a rhydd i recriwtio llywodraethwyr ychwanegol ar sail y sgiliau sydd eu hangen arnynt.

10. Wrth ymateb i adroddiad Hill, casglodd y Grŵp fod angen, ymhlith pethau eraill:

- *Mwy o bwyslais ar y sgiliau sydd eu hangen ar lywodraethwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau yn hytrach nag ar bwy y maent yn eu cynrychioli*
- *Mwy o eglurdeb ynghylch rolau ac atebolrwydd cyrff llywodraethu.*

**Ein cynigion - golwg gyffredinol**

11. Rydym yn ceisio diwygio'r fframwaith deddfwriaethol y mae llywodraethu ysgolion yn gweithio oddi mewn iddo er mwyn rhoi'r hyblygrwydd i gyrff llywodraethu benodi llywodraethwyr sydd â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn gorff llywodraethu effeithiol, ac i'w cyfansoddi eu hunain er mwyn diwallu anghenion penodol eu hysgolion.

12. Bydd ein cynigion:

- Yn diwygio ac yn diweddaru fframwaith rheoleiddio llywodraethu a staffio ysgolion er mwyn i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir yng Nghymru fod yn y sefyllfa orau i sicrhau bod eu hysgolion yn cael eu llywodraethu'n effeithiol ac yn llwyddo

- Yn cydgrynhoi ac yn symleiddio'r fframwaith deddfwriaethol presennol drwy sicrhau bod un ffordd gyson ar waith i lywodraethu pob ysgol a gynhelir yng Nghymru.

13. Mae corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir yn dod o fewn cwmpas y fframwaith, gan gynnwys cyrff llywodraethu ffederal a chyrff llywodraethu dros dro ysgolion newydd.

14. Rydym yn cynnig hefyd y caiff y newidiadau i amserau dechrau a diwedd y diwrnod ysgol ar gyfer ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion cymunedol arbennig ac ysgolion meithrin a gynhelir ddod i rym ar ddechrau tymor ysgol yn hytrach na'u bod yn gorfod aros tan ddechrau’r flwyddyn ysgol.

15. Mae drafft o’r rheoliadau arfaethedig, Rheoliadau Llywodraethu a Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2017 a fydd yn diwygio ac yn cydgrynhoi'r fframwaith llywodraethu ysgolion wedi'i atodi yn Atodiad A. Gelwir y Rheoliadau drafft hyn yn "Rheoliadau Newydd" yn y ddogfen hon.

16. Mae'r cwestiynau a ofynnir drwy'r ddogfen hon i'w hateb yn yr holiadur sydd wedi’i atodi yn Atodiad B.

17. Yn Rhannau 1 i 7 o’r ddogfen hon, byddwn yn esbonio ein cynigion ar gyfer pob un o'r setiau o Reoliadau sydd ar gael eisoes ac sy'n ffurfio'r fframwaith llywodraethu ysgolion presennol. Byddwn yn ymdrin yn gyntaf â'r setiau o Reoliadau lle y cyflwynir y newidiadau mwyaf sylfaenol, yn hytrach na chadw at drefn eu llunio. Byddwn hefyd yn cyfeirio ar ddechrau pob Rhan at y darpariaethau yn y Rheoliadau Newydd yn Atodiad A a fydd yn disodli pob set o'r Rheoliadau Presennol.

18. Yn Rhan 8, byddwn yn trafod y diwygiadau canlyniadol a'r diwygiadau eraill y bydd angen eu gwneud i wahanol setiau o reoliadau eraill yn sgil y Rheoliadau Newydd.

19 Mae Rhan 9 yn gofyn am farn pobl am yr amserlenni a gynigir ar gyfer eu rhoi ar waith.

20. Mae Rhan 10 yn gofyn am farn pobl am yr asesiad effaith reoleiddiol drafft sydd yn Rhan 2 o Atodiad C, yn ogystal â’u barn am yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad D a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn Atodiad E a’r Asesiad Drafft o’r Effaith ar y Gymraeg yn Atodiad F.

# Rhan 1: Newidiadau arfaethedig i Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 (Rheoliadau 2005)

*Cynigir y dylai rhai neu'r cyfan o'r Rhannau a'r Atodlenni canlynol yn y Rheoliadau Newydd sydd yn Atodiad A ddisodli Rheoliadau 2005:*

- *Rhan 4:"Categorïau o lywodraethwyr" ac Atodlenni 2,3 a 4*
- *Rhan 5: Pennod 1 "Cyfansoddiad corff llywodraethu: ysgolion nad ydynt yn ysgolion ffederal"*
- *Rhan 5: Pennod 3 "Cymwysterau a daliadaeth swydd" ac Atodlen 5*
- *Rhan 5: Pennod 4 "Offeryn llywodraethu, cynghorau ysgol a statws elusennol"*
- *Rhan 5: Pennod 5 "Penodi swyddogion, eu swyddogaethau a therfynu eu gwasanaeth"*
- *Rhan 5: Pennod 6 "Cyfarfodydd a thrafodion y corff llywodraethu"*
- *Rhan 5: Pennod 7 "Pwyllgorau cyrff llywodraethu"*
- *Rhan 5: Pennod 8 "Cyfyngiadau ar bobl yn cymryd rhan yn nhrafodion y corff llywodraethu neu ei bwyllgorau" ac Atodlen 6.*

## Aelodaeth cyrff llywodraethu

**Golwg gyffredinol**
1. Mae Rheoliadau 2005 sy'n llywodraethu cyfansoddiad ac aelodaeth cyrff llywodraethu ysgolion wedi bod ar waith er 2005 ac nid ydynt yn ddigon hyblyg ar hyn o bryd, gan eu bod yn canolbwyntio mwy ar bwy mae llywodraethwyr yn eu cynrychioli yn hytrach nag ar y sgiliau sydd ganddynt. Ar hyn o bryd, bydd nifer y llywodraethwyr yn cael ei bennu ar sail nifer y disgyblion mewn ysgol ac ar sail ai ysgol uwchradd ynteu ysgol gynradd yw hi. Mae hyn yn golygu bod rhai cyrff llywodraethu'n cael eu hystyried yn rhy fawr i fod yn effeithiol.

2. Mae'r trefniadau hyn yn anhyblyg ac nid ydynt yn caniatáu i gyrff llywodraethu lunio'u cyfansoddiad mewn ffordd sydd wedi'i theilwra i weddu i anghenion penodol eu hysgol.

3. Bydd y diwygiadau yr ydym yn eu cynnig ar gyfer y fframwaith llywodraethu'n caniatáu i gyrff fod yn llai a chanolbwyntio mwy ar sgiliau.

**Cyrff Llywodraethu Medrus**
4. Rydym am sicrhau bod pob llywodraethwr ysgol a benodir yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i fedru "ymdopi" â gofynion eu rôl. Gallai hyn gynnwys profiad perthnasol yn ogystal â sgiliau sy'n cael eu cydnabod yn ffurfiol; er enghraifft, gellid ystyried bod gan rywun sydd â phrofiad yn y gymuned fusnes y sgiliau angenrheidiol i fod yn llywodraethwr ysgol.

5. Felly, rydym yn ymgynghori ynghylch ei gwneud yn ofynnol i bob llywodraethwr a benodir feddu - ym marn yr unigolyn neu'r corff sy'n ei benodi – ar y sgiliau sy'n ofynnol i gyfrannu at lywodraethu effeithiol a llwyddiant ei ysgol. Gelwir hyn yn "Feini Prawf Sgiliau".

6. Disgwylir i gyrff llywodraethu gynnal archwiliad sgiliau i weld a oes unrhyw fylchau yn y sgiliau sydd ar gael a phenodi ar sail hynny.

***C.1 Ydych chi'n cytuno â'n cynlluniau ar gyfer cyrff llywodraethu medrus?***

***C.2 Ydych chi'n meddwl bod y "Meini Prawf Sgiliau" wedi'u diffinio'n briodol?***

**Newidiadau i gategorïau llywodraethwyr**

7. Roedd Rheoliadau 2005 yn creu 11 categori o lywodraethwyr ysgolion yng Nghymru, er nad oes angen pob categori o lywodraethwr ar gyfer pob math o ysgol. Er enghraifft nid oes gan ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir lywodraethwyr cymunedol.

8. Dyma'r 11 categori:

- Rhiant lywodraethwyr
- Athrawon lywodraethwyr
- Staff lywodraethwyr
- Llywodraethwyr awdurdodau lleol
- Llywodraethwyr cymunedol
- Llywodraethwyr cymunedol ychwanegol
- Llywodraethwyr sefydledig
- Llywodraethwyr partneriaeth
- Llywodraethwyr nawdd
- Llywodraethwyr cynrychioladol
- Disgybl lywodraethwyr cyswllt - er nad oes gan y "disgybl lywodraethwyr" hyn bleidlais ac y gallant gael eu heithrio o rai o gyfarfodydd y corff llywodraethu.

9. Rydym yn cynnig newid hyn a chael 8 categori o lywodraethwyr, sef:

- Rhiant lywodraethwyr (sy'n cynnwys rhiant lywodraethwyr a etholir gan rieni eraill a rhiant lywodraethwyr y mae'n rhaid eu penodi gan gorff llywodraethu'r ysgol)
- Staff lywodraethwyr (sy'n cynnwys yr hyn a elwir ar hyn o bryd yn athrawon lywodraethwyr ac yn staff lywodraethwyr)
- Llywodraethwyr awdurdodau lleol
- Llywodraethwyr cymunedol
- Llywodraethwyr sefydledig
- Llywodraethwyr partneriaeth
- Disgybl lywodraethwyr - ni fydd gan y rhain bleidlais o hyd ac mae'n bosibl y cânt eu heithrio o rai o gyfarfodydd y corff llywodraethu
- Chategori newydd o lywodraethwyr "cyfetholedig", a gaiff eu penodi gan gorff llywodraethu oherwydd eu sgiliau a'u profiad.

10. Byddwn yn edrych yn fwy manwl ar y categorïau arfaethedig hyn isod.

**Rhiant Lywodraethwyr**

11. Ar hyn o bryd, bydd rhiant lywodraethwyr yn cael eu hethol gan rieni eraill mewn ysgol. Os na fydd cyrff llywodraethu'n gallu llenwi swydd rhiant lywodraethwr, fe gânt benodi llywodraethwr "yn lle" ethol un.

12. Rydym yn cynnig y bydd gan gyrff llywodraethu ddau gategori o riant lywodraethwr - y rheini sy'n cael eu hethol a'r rheini a benodir yn ôl eu haeddiant oherwydd y sgiliau sydd ganddynt i'w cynnig. Oherwydd ein bod yn dal i ddymuno caniatáu i gyrff llywodraethu benodi rhiant lywodraethwr "yn lle" ethol llywodraethwr, caiff rhiant ddod yn llywodraethwr mewn tair ffordd:

i) Drwy gael ei ethol gan rieni eraill
ii) Drwy gael ei benodi 'yn lle' rhiant lywodraethwr etholedig. Er enghraifft, os na fydd digon o nifer yn sefyll etholiad neu os na fydd yr un rhiant yn sefyll etholiad
iii) Drwy gael ei benodi'n 'rhiant lywodraethwr sydd wedi'i benodi' o'r cychwyn cyntaf.

13. Mae'r cynigion ar gyfer aelodaeth yn dweud ei bod yn rhaid cael dau riant lywodraethwr o leiaf - un wedi'i ethol (categori i) neu wedi'i benodi yn lle (categori ii) ac un wedi'i benodi yn rhinwedd ei haeddiant ei hun (categori iii) uchod. Rhaid i nifer y rhiant lywodraethwyr a benodir o dan gategori iii fod yn gyfartal o leiaf â nifer cyfun y rhiant lywodraethwyr o dan gategorïau i a ii.

14. Rhaid i riant lywodraethwyr a benodir i'w swydd o dan gategori (ii) neu (iii), ym marn corff llywodraethu'r ysgol, gyflawni'r Meini Prawf Sgiliau. Gellir hefyd derfynu eu gwasanaeth ar y corff llywodraethu drwy ddefnyddio'r broses a bennir yn y Rheoliadau newydd. Trafodir hyn ym mharagraffau 93-95 isod, ac mae'n debyg iawn i'r broses ar gyfer terfynu gwasanaeth rhiant lywodraethwyr sydd yn Rheoliadau 2005.

15. Ni fydd rhiant lywodraethwyr a etholir i'w swydd gan rieni eraill mewn ysgol yn gorfod cydymffurfio â'r Meini Prawf Sgiliau. Rydym yn bwriadu defnyddio canllawiau i ddangos beth yw gofynion y rôl i annog rhieni sydd â'r sgiliau priodol i sefyll etholiad.

16. Wrth benodi rhiant lywodraethwyr "yn lle" o dan gategori ii, mae meini prawf rheoliadau 2005 ar hyn o bryd yn dweud ei bod yn rhaid i'r unigolyn fod yn rhiant i ddisgybl cofrestredig neu'n rhiant i blentyn o oedran ysgol gorfodol. Mae'r rheoliadau newydd yn rhoi'r un meini prawf hyn ar waith ar gyfer rhiant lywodraethwyr a benodir o dan gategori iii, a hefyd yn estyn y meini prawf i ganiatáu ar gyfer penodi rhieni cyn-ddisgyblion a gofrestrwyd yn yr ysgol naill ai yn lle rhiant lywodraethwr etholedig (ii) neu'n rhiant lywodraethwr sydd wedi'i benodi (categori iii).

17. Rydym yn cynnig y dylid estyn y rhesymau presennol dros anghymhwyso rhywun rhag dod yn rhiant lywodraethwr, gan wahardd rhywun sy'n gweithio yn yr ysgol ni waeth faint o oriau y byddant yn eu gweithio, hyd yn oed os ydynt yn rhiant i un o ddisgyblion yr ysgol.

18. Bydd hyn yn golygu na chaiff neb ddod yn rhiant lywodraethwr os yw:

- Yn aelod etholedig o'r awdurdod lleol
- Yn gyflogedig gan yr awdurdod lleol yng nghyswllt ei swyddogaethau addysg neu
- Yn gweithio yn yr ysgol ni waeth faint o oriau y bydd yn eu gweithio ac ni waeth a yw'n rhiant i ddisgybl sydd wedi'i gofrestru yn yr ysgol.

***C.3 Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylid cael rhiant lywodraethwyr sydd wedi'i benodi oherwydd y sgiliau sydd ganddynt i'w cynnig?***

***C.4 Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylid caniatáu i rieni cyn-ddisgyblion yn yr ysgol i gael eu penodi'n rhiant lywodraethwyr o dan gategori (ii) neu (iii)?***

***C.5 Ydych chi'n cytuno y dylid ei gwneud yn orfodol i nifer y rhiant lywodraethwyr etholedig fod yn llai na nifer y rhiant lywodraethwyr a benodir?***

***C. 6 Ydych chi'n cytuno y dylid anghymhwyso rhywun rhag dod yn rhiant lywodraethwr os yw'n gweithio yn yr ysgol, ni waeth faint o oriau y mae'n eu gweithio a hyd yn oed os yw'n rhiant i ddisgybl yn yr ysgol?***

**Staff Lywodraethwyr**
19 Mae Rheoliadau 2005 yn cynnwys categorïau athrawon lywodraethwyr a staff lywodraethwyr ar gyfer pob ysgol ac eithrio ar gyfer ysgolion meithrin. Rydym yn cynnig cyfuno'r categorïau hyn er mwyn cael un categori o lywodraethwr staff ar gyfer pob corff llywodraethu mewn ysgol, oherwydd bydd gan yr holl staff mewn ysgol ran i'w chwarae'n cyfrannu at lwyddiant eu hysgol.

20. Mae'r cynigion ar gyfer aelodaeth yn dweud y dylid cael o leiaf 1 staff lywodraethwr, a etholir gan holl staff yr ysgol.

21. Gan fod staff lywodraethwyr yn cael eu hethol i'w swydd, ni fyddant yn gorfod cydymffurfio â'r Meini Prawf Sgiliau. Rydym yn bwriadu defnyddio canllawiau i ddangos beth yw gofynion y rôl i annog staff sydd â'r sgiliau priodol i sefyll etholiad.

22. Bydd y darpariaethau anghymhwyso presennol yn Rheoliadau 2005 lle bydd yn rhaid i athrawon neu staff lywodraethwyr roi'r gorau iddi cyn gynted ag y bydd yn rhoi'r gorau i weithio yn yr ysgol yn berthnasol i'r categori cyfun o staff lywodraethwr.

***C.7 Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer staff lywodraethwyr, gan gynnwys cyfuno categorïau'r athrawon lywodraethwyr a'r staff lywodraethwyr?***

**Llywodraethwyr Awdurdodau Lleol**
23. Bydd llywodraethwyr awdurdodau lleol o hyd a bydd y rheini'n cael eu penodi gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol.

24. Mae'r cynigion ar gyfer aelodaeth yn dweud y dylid cyfyngu nifer llywodraethwyr yr awdurdod lleol i 1.

25. Gan fod llywodraethwyr awdurdodau lleol yn cael eu penodi i'w swydd, rhaid i'r awdurdod lleol sy'n eu penodi gredu bod y darpar lywodraethwr yn cyflawni'r Meini

Prawf Sgiliau. Caiff yr awdurdod lleol sydd wedi penodi'r llywodraethwr derfynu ei wasanaeth ar y corff llywodraethu.

26. Er mwyn sicrhau nad yw buddiannau staff ac awdurdodau lleol wedi'u gorgynrychioli ar gyrff llywodraethu, rydym yn cynnig cadw'r hyn sy'n cyfateb i'r meini anghymhwyso presennol yn Rheoliadau 2005, lle na chaiff rhywun barhau i wasanaethu na chael ei benodi'n llywodraethwr awdurdod lleol os yw'n gymwys i fod yn staff lywodraethwr.

***C.8 Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer llywodraethwyr awdurdod lleol?***

***C.9 Fyddech chi'n hoffi gweld unrhyw gategori arall o unigolion yn cael eu hanghymhwyso rhag dod yn llywodraethwr ysgol awdurdod lleol, er enghraifft, aelod etholedig o awdurdod lleol.***

**Llywodraethwyr Cymunedol;**
27. Bydd gan gyrff llywodraethu ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion sefydledig lywodraethwyr cymunedol o hyd, ond mae'r cynigion ynglŷn ag aelodaeth yn dweud mai dim ond un llywodraethwr cymunedol a ddylai fod ym mhob corff llywodraethu.

28. Ni fydd gan ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir lywodraethwyr cymunedol, fel sy'n wir ar hyn o bryd.

29. Fel sy'n wir am lywodraethwyr eraill sy’n cael eu penodi, wrth benodi llywodraethwyr cymunedol, canolbwyntir ar y sgiliau sydd ganddynt i’w cynnig i'r corff llywodraethu yn hytrach nag ar bwy y maent ac y gallent eu cynrychioli. Felly, rhaid i lywodraethwyr cymunedol gyflawni'r Meini Prawf Sgiliau ym marn corff llywodraethu'r ysgol sy'n eu penodi. Gellir hefyd derfynu eu gwasanaeth ar y corff llywodraethu drwy ddefnyddio'r broses a bennir yn y rheoliadau.

***C.10 Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer llywodraethwyr cymunedol?***

Llywodraethwyr Sefydledig
30. Bydd gan ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion sefydledig sydd â sefydliad lywodraethwyr sefydledig o hyd.

31. Mae'r cynigion ynglŷn ag aelodaeth yn dweud y dylai fod gan ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ddau lywodraethwyr sefydledig yn fwy na nifer cyfun yr holl gategorïau eraill o lywodraethwyr.

32. Bydd gan ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion sefydledig sydd â sefydliad ddau lywodraethwr sefydledig o leiaf. Mae’n bosibl iddynt gael mwy na hyn, ond ni chaiff cyfanswm nifer y llywodraethwyr sefydledig fod yn fwy na thraean cyfanswm nifer y llywodraethwyr (ar ôl ei dalgrynnu i fyny neu i lawr i'r rhif cyfan agosaf).

33. Gan fod llywodraethwyr sefydledig yn cael eu penodi i'w swydd, rydym yn cynnig y dylai'r sawl neu'r corff sy'n eu penodi gredu bod y darpar lywodraethwr yn cyflawni'r Meini Prawf Sgiliau. Fel sy'n wir ar hyn o bryd, caiff y corff sy'n gyfrifol am y penodi derfynu gwasanaeth llywodraethwyr sefydledig ar y corff llywodraethu.

34. Mae gan ysgolion gwirfoddol ac ysgolion sefydledig ethos arbennig ac rydym yn credu y dylai llywodraethwyr sefydledig allu cefnogi'r ethos hwn. Felly, rydym hefyd yn cynnig ei bod yn rhaid i'r sawl neu'r corff sy'n penodi gredu bod y darpar lywodraethwr sefydledig yn gallu cyflawni'r dibenion y'i penodwyd ar eu cyfer.

***C.11 Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer llywodraethwyr sefydledig?***

Llywodraethwyr partneriaeth
35. Bydd gan ysgolion sefydledig heb sefydliad lywodraethwyr partneriaeth o hyd a'r rheini'n cael eu penodi gan gorff llywodraethu naill ai ar ôl eu henwebu neu'n uniongyrchol os nad oes digon o enwebeion cymwys.

36. Mae'r cynigion ynglŷn ag aelodaeth yn dweud y bydd gan ysgolion sefydledig priodol ddau lywodraethwr partneriaeth o leiaf. Mae'n bosibl iddynt gael mwy na hynny, ond ni chaiff cyfanswm nifer y llywodraethwyr partneriaeth fod yn fwy na thraean cyfanswm nifer y llywodraethwyr (ar ôl ei dalgrynnu i fyny neu i lawr i'r rhif cyfan agosaf).

37. Ni fydd neb yn gymwys i'w enwebu na'i benodi'n uniongyrchol heblaw - ym marn y sawl neu'r corff sy'n ei enwebu neu'n ei benodi - ei fod yn cyflawni'r Meini Prawf Sgiliau.

38. Yn yr achosion prin lle bydd corff llywodraethu'n gwrthod enwebiad ar gyfer llywodraethwr partneriaeth, bydd yn rhaid i'r corff llywodraethu hysbysu'r sawl neu'r corff sydd wedi gwneud yr enwebiad am ei benderfyniad a hefyd hysbysu'r unigolyn a enwebwyd ac a wrthodwyd a'r awdurdod lleol.

***C.12 Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer llywodraethwyr partneriaeth?***

**Disgybl Lywodraethwyr**
39. Mae darpariaeth o hyd i ddisgyblion ethol hyd at 2 o ddisgyblion blynyddoedd 11 i 13 i'w penodi'n ddisgybl lywodraethwyr ar gorff llywodraethu ysgol; ni fydd angen i'r disgyblion etholedig gyflawni'r Meini Prawf Sgiliau ac - fel sy'n wir ar hyn o bryd - caiff y corff llywodraethu derfynu eu gwasanaeth.

40. Mae teitl y categori hwn o lywodraethwyr wedi'i gwtogi i "ddisgybl lywodraethwr" er mwyn osgoi dryswch ag "aelodau cysylltiol", a drafodir ym mharagraffau 46-52 isod. Bydd disgybl lywodraethwyr yn dal i allu cymryd rhan ar bwyllgorau penodol y corff llywodraethu lle bydd y rhan fwyaf o waith beunyddiol y corff llywodraethu'n digwydd; os bydd y corff llywodraethu'n cytuno, fe gânt bleidleisio hefyd. Serch hynny, ni fydd disgybl lywodraethwyr yn cael cymryd rhan o hyd mewn pwyllgorau sy'n ymdrin â materion megis staffio neu ddisgyblu disgyblion.

**Llywodraethwyr Cyfetholedig**
41. Rydym yn cynnig sefydlu categori newydd o "lywodraethwr cyfetholedig" i roi'r hyblygrwydd i gyrff llywodraethu sicrhau eu bod yn gallu llenwi unrhyw "fylchau mewn sgiliau" a welir, ac felly i alluogi cyrff llywodraethu i gyflawni eu rôl yn fwy effeithiol.

42. Mae'r cynigion ynglŷn ag aelodaeth yn dweud ei bod yn rhaid i bob corff llywodraethu gael o leiaf un llywodraethwr cyfetholedig, er ei bod yn bosibl iddynt gael mwy nag un. Rydym yn dymuno annog cyrff llywodraethu i gynnal "archwiliad sgiliau" yn rheolaidd er mwyn gweld a oes unrhyw sgiliau'n ddiffygiol ymhlith y corff presennol, a bod llywodraethwyr cyfetholedig yn cael eu penodi i lenwi'r bylchau sgiliau hyn. Caiff y corff llywodraethu derfynu eu gwasanaeth gan ddilyn y broses a bennir yn y Rheoliadau Newydd.

43. Gall y llywodraethwyr hyn ddod o blith y gymuned fusnes (yn unol ag argymhelliad y CBI yn ei adroddiad *"Step Change - A new approach for schools in Wales"*), neu o gefndir arall. Byddant yn cyflawni argymhelliad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i newid oddi wrth y model rhanddeiliaid presennol o lywodraethu ysgolion at ymagwedd "Rhanddeiliaid a Mwy", oherwydd bydd gan gyrff llywodraethu yr hyblygrwydd a'r rhyddid i recriwtio llywodraethwyr ychwanegol a hynny'n llwyr ar sail y sgiliau sydd eu hangen arnynt i lywodraethu'n effeithiol.

44. Gan nad oes angen i lywodraethwyr cyfetholedig fod â chysylltiadau uniongyrchol ag ysgol, rydym yn cynnig y dylai corff llywodraethu fod yn fodlon, cyn penodi llywodraethwr cyfetholedig, ei fod nid yn unig yn cyflawni'r Meini Prawf Sgiliau, ond hefyd mai ei brif nod yw dymuno i'r ysgol sicrhau'r deilliannau gorau posibl i'w ddisgyblion (mae'r maen prawf olaf hwn ynghyd â'r Meini Prawf Sgiliau'n cael ei alw'n Feini Prawf Cyfetholedig" yn y ddogfen hon). Credwn fod y maen prawf olaf yn cynnig "cysylltiad" angenrheidiol ag ysgol gan ganiatáu ar yr un pryd i'r llywodraethwyr cyfetholedig gael eu tynnu o "gronfa" mor eang â phosibl.

***C.13 Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer llywodraethwyr cyfetholedig; a fyddant yn rhoi'r hyblygrwydd i gyrff llywodraethu sydd ei angen arnynt i lenwi unrhyw "fylchau mewn sgiliau"?***

***C.14 Ydych chi'n cytuno y dylai llywodraethwyr cyfetholedig gyflawni'r "Meini Prawf Cyfetholedig", yn hytrach na dim ond y "Meini Prawf Sgiliau"?***

**Terfynu gwasanaeth categorïau penodol o lywodraethwyr ysgol**

45. Gan fod y meini prawf cymhwysedd ar gyfer llywodraethwyr cyfetholedig - o anghenraid - yn eang eu cwmpas, credwn nad oes angen cael darpariaeth ar wahân bellach ar gyfer categorïau o lywodraethwyr ychwanegol o'r gymuned, llywodraethwyr nawdd a llywodraethwyr cynrychioladol. Gallai'r bobl sydd ar hyn o bryd wedi'u penodi i'r rolau hyn ddod o fewn cwmpas y categori "cyfetholedig" newydd, ar yr amod bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i gyflawni'r Meini Prawf Cyfetholedig.

***C.15 Ydych chi'n cytuno nad oes angen cael y categorïau o lywodraethwyr cymunedol ychwanegol, llywodraethwyr nawdd a llywodraethwyr cynrychioladol?***

**Aelodau Cysylltiol o Bwyllgorau**

46. Mae Rheoliadau 2005 ar hyn o bryd yn galluogi pwy bynnag arall a bennir gan y corff llywodraethu neu'r pwyllgor i ddod i gyfarfod pwyllgor (Gweler rheoliad 59(1)(d)). Gwyddom fod cyrff llywodraethu wedi defnyddio'r ddarpariaeth hon i

wahodd arbenigwyr megis archwilwyr ac arbenigwyr adnoddau dynol i gyfarfodydd pwyllgorau penodol.

47 Rydym yn cynnig y dylid cadw'r ddarpariaeth hon, ond y dylid hefyd ganiatáu ar gyfer penodi pobl nad ydynt yn llywodraethwyr ar bwyllgorau corff llywodraethu ar sail fwy sefydlog. Gelwir y bobl hyn yn "aelodau cysylltiol", a bydd ganddynt ba sgiliau arbenigol a phrofiad bynnag ag y gall fod eu hangen ar y corff llywodraethu i "lenwi" unrhyw fylchau mewn sgiliau ar bwyllgor gan alluogi'r corff llywodraethu i gyflawni ei rôl llywodraethu'n well. Byddant yn aelodau o'r pwyllgorau y maent wedi'u penodi iddynt, ond nid yn aelodau o'r corff llywodraethu.

48 Yn wahanol i'r bobl y ceir eu gwahodd i gyfarfodydd pwyllgorau ar hyn o bryd o dan Reoliadau 2005, rydym yn cynnig y caiff corff llywodraethu benodi unigolyn yn aelod cysylltiedig i fynychu pob cyfarfod o bwyllgor penodedig am gyfnod sy’n para rhwng 1 a 4 blynedd. Mantais hyn yw sicrhau dilyniant i'r corff llywodraethu a rôl ddiffiniedig i'r aelod cysylltiol.

49. Credwn y gallai aelodau cysylltiol fod yn arbennig o ddefnyddiol lle bydd gofyn cael gwybodaeth arbenigol. Er enghraifft, gallai recriwtio archwilydd cymwys yn aelod cysylltiol ar bwyllgor cyllid fod yn amhrisiadwy i rai cyrff llywodraethu. Byddai gan aelod cysylltiol o'r fath y set iawn o sgiliau i ddeall natur y gwaith a wneir gan y pwyllgor hwnnw - a'r profiad i helpu corff llywodraethu i gymryd unrhyw gamau angenrheidiol.

50. Serch hynny, nid llywodraethwyr fydd yr aelodau cysylltiol, ac felly ni fydd ganddynt hawliau pleidleisio ar bwyllgor heblaw bod y corff llywodraethu'n penderfynu rhoi'r hawliau hynny iddynt adeg eu penodi.

51. Gan na fydd aelodau cysylltiol yn llywodraethwyr, gall y corff llywodraethu derfynu eu gwasanaeth unrhyw bryd.

52. Y meini prawf cymhwyso y bydd angen i aelod cysylltiol eu cyflawni yw:

I. Bod y corff llywodraethu'n credu bod gan yr aelod cysylltiol y sgiliau a’r profiad addas sy’n golygu y dylid ei wahodd i ymuno â chyfarfodydd pwyllgor neu bwyllgorau penodol y corff llywodraethu

II. Na fyddai'r aelod cysylltiol yn cael ei anghymhwyso rhag bod yn llywodraethwr

III. Nad yw'r aelod cysylltiol yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol.

***C.16 Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer " aelodau cysylltiol" sy'n cael eu penodi i bwyllgor(au) penodol?***

## Cyfansoddiad cyrff llywodraethu

53. Credwn fod y fframwaith llywodraethu ysgolion presennol yn rhy feichus ac yn or-gymhleth. Rydym yn dymuno sicrhau hyblygrwydd a chysondeb er mwyn i gyrff llywodraethu allu dewis aelodaeth sy'n gweddu i anghenion penodol eu hysgolion a bod yr un gofynion "craidd" yn berthnasol i bob ysgol, ni waeth beth yw eu maint.

54. Mae gofynion ychwanegol yn berthnasol i ysgolion gwirfoddol ac ysgolion sefydledig oherwydd eu natur arbennig a drafodir isod ym mharagraffau 60 i 65.

**Gofynion craidd ar gyfer pob ysgol.**
55. Rydym yn cynnig y bydd yn rhaid i gorff llywodraethu pob ysgol ac eithrio ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir gynnwys y 7 llywodraethwr "craidd" a ganlyn:

- O leiaf un rhiant lywodraethwr sydd wedi'i benodi – mae'n bosibl cael mwy na hynny ond ni fydd mwy nag un yn cyfrif at y gofyniad "craidd". Penodir y llywodraethwyr hyn yn ôl eu haeddiant ac nid dim ond oherwydd nad oes digon o rieni i lenwi'r swyddi gwag ar gyfer rhiant lywodraethwyr etholedig

- O leiaf un rhiant lywodraethwr sydd wedi'i ethol - mae'n bosibl cael mwy na hynny ond ni fydd mwy nag un yn cyfrif at y gofyniad "craidd". Nid oes modd cael mwy o riant lywodraethwyr etholedig nag o riant lywodraethwyr penodedig

- O leiaf un staff lywodraethwr sydd wedi'i ethol - mae'n bosibl cael mwy na hynny ond ni fydd mwy nag un yn cyfrif at y gofyniad "craidd"

- Y pennaeth - oni fydd yn ymddiswyddo

- Un llywodraethwr o'r awdurdod ond dim mwy nag un

- Un llywodraethwr cymunedol ond dim mwy nag un
- O leiaf un llywodraethwr cyfetholedig; - mae'n bosibl cael mwy na hynny ond ni fydd mwy nag un yn cyfrif at y gofyniad "craidd".

56. Yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, y gofyniad craidd fydd 6 llywodraethwr yn hytrach na 7. Y rheswm dros hyn yw oherwydd nad oes gan ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir lywodraethwyr cymunedol.

57. Ni fydd disgybl lywodraethwyr ac aelodau cysylltiol yn cyfrif at nifer aelodau craidd y llywodraethwyr. Ni fydd dim llywodraethwyr a benodir gan yr awdurdod lleol o dan adran 6 yn cyfrif ychwaith, na'r rhai a benodir gan Weinidogion Cymru o dan adran 13, o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

58. Ar gyfer pob categori o ysgolion ac eithrio rhai gwirfoddol neu sefydledig, mae ein cynigion yn golygu y gall aelodaeth cyrff llywodraethu fod cyn lleied â 7.

59. Nid ydym yn bwriadu pennu'r nifer mwyaf o lywodraethwyr ar gyfer yr un categori o ysgolion nac ar gyfer ysgol o unrhyw faint. Bydd gan bob corff llywodraethu'r rhyddid i gael nifer mwy o riant lywodraethwyr, staff lywodraethwyr a llywodraethwyr cyfetholedig os byddant yn dymuno cael rhagor.

**Gofynion ychwanegol: ysgolion gwirfoddol a reolir**
60. Yn ogystal â'r gofynion "craidd", rhaid i ysgolion gwirfoddol a reolir gael o leiaf 2 lywodraethwr sefydledig. Mae'n bosibl cael mwy na hynny, ond ni chaiff cyfanswm nifer y llywodraethwyr sefydledig fod yn fwy na thraean cyfanswm nifer llywodraethwyr y categorïau eraill ar ôl ei dalgrynnu i fyny neu i lawr i'r rhif cyfan

agosaf. Mae hyn yn llai na'r niferoedd presennol o lywodraethwyr sefydledig yn Rheoliadau 2005.

61. Mae hyn yn golygu mai nifer lleiaf y llywodraethwyr ar gyfer ysgol wirfoddol a reolir fydd 9. Fel sy'n wir am bob ysgol, nid oes terfyn ar gyfanswm nifer y llywodraethwyr ysgol ond rhaid i nifer y llywodraethwyr sefydledig gydymffurfio â'r gofynion uchod.

**Gofynion ychwanegol: ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir**
62. Yn ogystal â'r gofynion "craidd", rhaid i nifer y llywodraethwyr sefydledig mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir fod ddau yn fwy na chyfanswm yr holl gategorïau eraill o lywodraethwyr, ond ni chaiff y nifer y llywodraethwyr hyn fod yn fwy na dau.

63. Felly y nifer lleiaf o lywodraethwyr ar gyfer ysgol wirfoddol a gynorthwyir fydd 14, oherwydd mai'r gofyniad craidd ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yw 6. Fel sy'n wir am bob ysgol, nid oes terfyn ar gyfanswm nifer y llywodraethwyr ysgol ond rhaid i nifer y llywodraethwyr sefydledig gydymffurfio â'r gofynion uchod.

**Gofynion ychwanegol: ysgolion sefydledig**
64. Yn ogystal â'r gofynion "craidd" rhaid i ysgol sefydledig sydd â sefydliad gael dau lywodraethwr sefydledig o leiaf neu ddau lywodraethwr sefydledig neu ddau lywodraethwr partneriaeth os nad oes gan yr ysgol sefydliad. Mae’n bosibl cael mwy na hynny, ond ni chaiff cyfanswm nifer y llywodraethwyr sefydledig neu bartneriaeth fod yn fwy na thraean cyfanswm nifer llywodraethwyr y categorïau eraill.

65. Felly, y nifer lleiaf o lywodraethwyr ar gyfer ysgol sefydledig fyddai 9. Fel sy'n wir am bob ysgol, ni phennir terfyn ar gyfer cyfanswm nifer y llywodraethwyr ysgol ond rhaid i nifer y llywodraethwyr sefydledig neu bartneriaeth gydymffurfio â'r gofynion uchod.

***C.17 Ydych chi'n cytuno'n gyffredinol â'n cynigion ar gyfer aelodaeth cyrff llywodraethu?***

***C.18 Ydych chi'n cytuno â'r maint lleiaf a awgrymir ar gyfer cyrff llywodraethu?***

**Dim terfyn ar y nifer mwyaf o lywodraethwr**
66. Fel yr esboniwyd uchod, er mwyn rhoi cymaint o hyblygrwydd i ysgolion ag sy'n bosibl nid ydym am bennu terfyn ar gyfer y cyfanswm mwyaf posibl o lywodraethwyr ar gyfer unrhyw fath o ysgol - rhywbeth i'r corff llywodraethu ei bennu fyddai hyn.

67. Yn wir, rydym yn cynnig galluogi hyd yn oed fwy o hyblygrwydd drwy ganiatáu i gyrff llywodraethu amrywio nifer y rhiant lywodraethwyr, (wedi’u hethol ac wedi’u penodi), staff lywodraethwyr a llywodraethwyr cyfetholedig ar yr amod eu bod yn cyflawni’r gofynion craidd. Serch hynny, nid oes yn rhaid i gyrff llywodraethu fabwysiadu'r hyblygrwydd hwn os na fyddant yn dymuno gwneud hynny.

68. Bydd angen i'r Offeryn Llywodraethu bennu'r nifer mwyaf a'r nifer lleiaf y cytunwyd arnynt ar gyfer rhiant lywodraethwyr, staff lywodraethwyr a llywodraethwyr cyfetholedig a gaiff corff llywodraethu yn ogystal â phennu'r chyfanswm mwyaf a lleiaf ar gyfer nifer y llywodraethwyr. Os na fydd corff llywodraethu'n dymuno

manteisio ar hyblygrwydd o ran nifer y llywodraethwyr, yna, ni fydd yr Offeryn Llywodraethu ond yn nodi nifer "statig" y llywodraethwyr ym mhob categori a chyfanswm nifer llywodraethwyr y corff llywodraethu.

69. Credwn y bydd hyblygrwydd o'r fath o fudd oherwydd y bydd yn galluogi corff llywodraethu i amrywio nifer y llywodraethwyr o fewn terfynau'r nifer mwyaf a'r nifer lleiaf y cytunwyd arnynt heb orfod newid yr offeryn llywodraethu. Bydd y cynigion hefyd yn caniatáu iddynt amrywio'r nifer o fewn categori unigol o riant lywodraethwyr, staff lywodraethwyr neu lywodraethwyr cyfetholedig.

70. Er enghraifft, efallai y bydd corff llywodraethu ysgol gymunedol yn penderfynu y dylai cyfanswm ei aelodau fod yn 9 o leiaf ond na ddylai fod yn fwy na 2.

71. Gellid drafftio offeryn llywodraethu corff llywodraethu yn y fath fodd ag i ganiatáu aelodaeth sy’n cynnwys rhwng 9 a 12 o lywodraethwyr, sef cyfuniad o 1 neu 2 riant lywodraethwr wedi’u hethol, 1 neu 2 riant lywodraethwr wedi’u penodi, 1 neu 2 staff lywodraethwr, yr 1 llywodraethwr cymunedol a llywodraethwr awdurdod lleol gorfodol, y pennaeth a rhwng 1 a 5 llywodraethwr cyfetholedig. Serch hynny, ni fyddai cyfanswm aelodau'r corff llywodraethu byth yn fwy na 12 llywodraethwr ar unrhyw un adeg.

72. Bydd gan ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion sefydledig ofynion ychwanegol ar gyfer llywodraethwyr sefydledig neu lywodraethwyr partneriaeth; bydd ganddynt yr hyblygrwydd i amrywio nifer y llywodraethwyr hyn ar yr amod na fydd y nifer lleiaf o lywodraethwyr o'r fath byth yn mynd o dan y gofyniad "craidd" sef 2 ac na fydd y nifer mwyaf yn fwy na thraean cyfanswm y llywodraethwyr. Trafodir hyn ym mharagraffau 60-61 a 64-65 uchod.

73. Ni chaiff ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir fyth fod â dau yn fwy o lywodraethwr sefydledig na chyfanswm nifer y llywodraethwyr ym mhob categori arall. Felly, bydd angen i nifer y llywodraethwyr sefydledig ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir adlewyrchu unrhyw amrywiadau yn nifer y rhiant lywodraethwyr, staff lywodraethwyr a llywodraethwyr cyfetholedig.

74. Petai corff llywodraethu'n dymuno newid y nifer mwyaf a'r nifer lleiaf o lywodraethwyr y cytunwyd arnynt ar gyfer categori penodol, neu newid y cyfanswm mwyaf neu leiaf o lywodraethwyr, yna byddai gofyn diwygio'r offeryn llywodraethu. Nid oes fawr o newid wedi bod i'r weithdrefn i ddiwygio cynnwys yr offeryn llywodraethu ers Rheoliadau 2005.

75. Ni fyddai angen i'r corff llywodraethu gael y nifer mwyaf posibl o lywodraethwyr pan fyddent yn ail-lunio'i gyfansoddiad o dan y Rheoliadau Newydd. Gallent ddechrau gyda chorff llywodraethu llai o faint a'i ehangu wrth benodi llywodraethwyr ychwanegol yn ôl yr angen.

76. Er enghraifft, efallai y bydd corff llywodraethu ysgol uwchradd fawr yn pennu yn yr offeryn llywodraethu y bydd ganddo hyd at 3 rhiant lywodraethwr wedi’u hethol, hyd at 4 o riant lywodraethwyr wedi’u penodi; hyd at 2 o staff lywodraethwyr a hyd at 8 o lywodraethwyr cyfetholedig (yn ogystal â'r pennaeth, un llywodraethwr

cymunedol ac un llywodraethwyr awdurdod lleol) - gan roi'r nifer mwyaf posibl o 20 o lywodraethwyr.

77. I ddechrau, efallai y bydd y corff llywodraethu'n credu bod cyfanswm o 12 o aelodau'n ddigon i gyflawni ei gyfrifoldebau llywodraethu, a hwnnw'n cynnwys 2 riant lywodraethwr wedi'u hethol a 2 wedi'u penodi, un staff lywodraethwr a 4 llywodraethwr cyfetholedig, yn ogystal â'r pennaeth, un llywodraethwr cymunedol ac un llywodraethwr awdurdod lleol. Serch hynny, petai'n rhaid i'r ysgol sefydlu pwyllgor disgyblu a diswyddo ac na fyddai ganddi ddigon o lywodraethwyr diduedd ymhlith ei haelodau cychwynnol, gallai benodi llywodraethwyr ychwanegol o blith categorïau'r rhieni a'r rhai cyfetholedig. Yn ddamcaniaethol, gellid defnyddio staff lywodraethwr ychwanegol, ond credwn na fyddai'r rhan fwyaf o'r ysgolion yn dewis cael staff lywodraethwr ar bwyllgor disgyblu oherwydd y gallai hynny achosi problemau ymhlith y staff.

78. Mae'r hyblygrwydd hwn hefyd yn golygu petai llywodraethwyr yn cael eu hatal rhag gwasanaethu ond bod eu gwasanaeth heb ei derfynu, y byddai'r corff llywodraethu'n cael penodi mwy o lywodraethwr i sicrhau ei fod yn parhau i weithredu'n effeithiol, ar yr amod nad yw'r nifer yn fwy na'r terfyn a bennwyd yn yr offeryn llywodraethu. Nid oes yn rhaid i lywodraethwr newydd a benodir er mwyn sicrhau bod y corff llywodraethu'n gweithredu'n effeithiol o reidrwydd ddod o'r un categori â'r llywodraethwr sydd wedi'i atal.

***C.19 Ydych chi'n cytuno na ddylai fod terfyn uchaf ar faint corff llywodraethu?***

***C.20 Ydych chi o blaid yr hyblygrwydd i allu pennu'r nifer mwyaf a'r nifer lleiaf posibl o riant lywodraethwyr, staff lywodraethwyr a llywodraethwyr cyfetholedig (ac o bosibl llywodraethwyr sefydledig a llywodraethwyr partneriaeth, yn amodol y cyfyngiadau ym mharagraffau 72-72) a bwrw bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr offeryn llywodraethu?***

**Llywodraethwyr Dros Ben**

79. Mae'n bosibl y bydd gan ysgol fwy o lywodraethwyr nag a bennir yn ei hofferyn llywodraethu. Er enghraifft, ar ôl dechrau defnyddio'r cyfansoddiad newydd ar gyfer cyrff llywodraethu, mae'n bosibl y bydd gan gorff fwy o lywodraethwyr nag sy'n ofynnol neu y darperir ar ei gyfer yn yr offeryn llywodraethu diwygiedig.

80. O dan Reoliadau 2005, os bydd llywodraethwyr dros ben ac nad oes digon ohonynt yn ymddiswyddo, yna, terfynir eu gwasanaeth ar sail eu cyfnod gwasanaethu h.y. terfynir gwasanaeth y llywodraethwyr sydd wedi gwasanaethu am y cyfnod byrraf ym mhob categori yn gyntaf.

81. Er mwyn i gyrff llywodraethu sicrhau eu bod yn cadw llywodraethwyr sydd â'r sgiliau gorau er mwyn i'r ysgol gael ei llywodraethu'n effeithiol a'i bod yn llwyddo, rydym yn cynnig y dylid rhoi'r rhyddid i gyrff llywodraethu yn y dyfodol benderfynu drostynt eu hunain pwy y byddant yn eu cadw a phwy a ddylai roi'r gorau i wasanaethu, gan ddefnyddio'r Meini Prawf Sgiliau'n sail ar gyfer y penderfyniad hwnnw. Yr unig eithriad fydd terfynu gwasanaeth llywodraethwyr sefydledig sydd dros ben. Trafodir hyn ym mharagraff 85.

82. Rydym yn cynnig y bydd y Rheoliadau newydd yn dweud:

- Ei bod yn rhaid i gorff llywodraethu gynnal pleidlais ynghylch pwy a ddylai roi'r gorau i wasanaethu gyda golwg ar bob categori lle bydd yna lywodraethwyr dros ben
- Na chaiff llywodraethwyr bleidleisio yn eu categori eu hunain
- Na chaiff yr un llywodraethwr roi'r gorau i wasanaethu nes bod yr holl bleidleisiau wedi'u bwrw ym mhob categori.

83. Bydd y broses hon yn sicrhau na fydd yr un categori o lywodraethwr o dan anfantais drwy gael ei ystyried yn gyntaf ar gyfer terfynu gwasanaeth os bydd llywodraethwyr dros ben mewn sawl categori.

84. Ni fydd yr un penderfyniad i derfynu gwasanaeth llywodraethwyr dros ben yn cael effaith oni chaiff y mater ei bennu'n eitem fusnes ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod lle bydd y pleidleisio'n digwydd.

85. Rhaid i unrhyw benderfyniad ynglŷn â therfynu gwasanaeth llywodraethwyr sefydledig dros ben gael ei wneud gan y sawl/corff sy'n gyfrifol am benodi'r llywodraethwyr sefydledig hwnnw. Rhaid i'r penderfyniad ynglŷn â pha lywodraethwyr i'w cadw a pha rai a ddylai roi'r gorau iddi gael ei wneud ar sail pwy sy'n cyflawni'r Meini Prawf Sgiliau orau, yn ogystal ag ar eu gallu i gyflawni'r dibenion y'u penodwyd i'w cyflawni fel llywodraethwr sefydledig.

***C.21 Ydych chi'n cytuno â'r cynnig mai'r sail ar gyfer terfynu gwasanaeth llywodraethwyr dros ben ddylai fod i ba raddau y maent yn cyflawni'r meini prawf sgiliau.***

***C.22 Oes gennych chi unrhyw farn ynglŷn ag a ddylid cynnal pleidlais gudd ar gyfer terfynu gwasanaeth llywodraethwyr dros ben?***

## Penodiadau, cymwysterau, daliadaeth swydd, ymddiswyddo a therfynu gwasanaeth llywodraethwyr

**Hysbysu ynghylch penodiadau**
85. Rydym am ddileu'r gofyniad presennol ei bod yn rhaid i'r clerc hysbysu'r sawl neu'r corff sy'n gyfrifol am benodi llywodraethwyr ynglŷn â swyddi gwag i lywodraethwyr a fydd yn codi. Dylai'r sawl sy'n gyfrifol am benodi llywodraethwyr wybod pa bryd y bydd cyfnod gwasanaeth llywodraethwyr yn dod i ben, felly credwn fod y gofyniad hwn yn or-fiwrocrataidd.

***C.23 Ydych chi'n cytuno â'n cynnig ynglŷn â hysbysu ynghylch penodiadau?***

**Cymwysterau**
87. Rydym yn dileu'r gofyniad na chaiff neb fod yn llywodraethwr mewn mwy na dwy ysgol. Bydd hyn yn golygu y gellir penodi pobl sy'n cyflawni'r Meini Prawf Sgiliau - a'r Meini Prawf Cyfetholedig yn achos llywodraethwyr cyfetholedig - yn llywodraethwyr ar fwy na dau gorff llywodraethu ysgolion. Gall hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol i

ysgolion gwledig bach sydd weithiau'n ei chael hi'n anodd penodi llywodraethwyr â'r sgiliau priodol.

***C.24 Ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid rhoi'r gorau i'r cyfyngiad sy'n dweud na chaiff neb fod yn llywodraethwyr mewn mwy na dwy ysgol?***

**Daliadaeth swydd**
88 Ar hyn o bryd, bydd pob llywodraethwr, ac eithrio llywodraethwyr sefydledig a llywodraethwyr ex officio[4], yn gwasanaethu am gyfnod o bedair blynedd. Rydym yn cynnig newid hyn – a bwrw bod offeryn llywodraethu ysgol yn caniatáu hynny - gan ddweud y caiff llywodraethwr fel rheol ei benodi neu ei ethol am gyfnod sy'n para rhwng 1 a 4 blynedd.

89. Bydd cyrff llywodraethu hefyd yn gallu pennu bod cyfnodau gwasanaethu amrywiol yn berthnasol i'r un categori o lywodraethwr. Credwn y bydd rhoi'r hyblygrwydd hwn i gyrff llywodraethu'n rhoi'r cyfle iddynt hwy ac i'r llywodraethwr/wyr newydd bwyso a mesur a yw'r trefniant yn gweithio. Mae'n golygu hefyd na fydd llywodraethwyr yn teimlo'n gyndyn o orfod ymrwymo ar unwaith i wasanaethu am bedair blynedd. Yr unig lywodraethwyr na chaiff cyrff llywodraethu bennu cyfnod gwasanaeth ar eu cyfer yw:

I. Llywodraethwyr "ex officio"
II. Llywodraethwyr sefydledig neu lywodraethwyr partneriaeth lle bydd telerau ymddiriedolaeth yr ysgol neu weithred y sefydliad yn golygu na chaiff y corff llywodraethu bennu cyfnod gwasanaeth ar eu cyfer.

90. Os bydd angen atal llywodraethwyr, yna, a bwrw bod yr offeryn llywodraethu'n caniatáu hynny, ac na fydd y nifer yn croesi'r trothwy uchaf a bennwyd ar gyfer nifer yr aelodau, bydd cyrff llywodraethu'n gallu recriwtio mwy o lywodraethwyr am gyfnodau byrrach o 1 flwyddyn a mwy i "lenwi'r bwlch" gweithredol a adewir yn sgil yr ataliad.

91. Gofynion eraill fydd:

- Bod llywodraethwyr ychwanegol neu aelodau dros dro o'r bwrdd gweithredol a benodir i gorff llywodraethu ysgol sy'n destun pryder o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn parhau i ddal swydd am gyfnod am bennir gan y sawl sy'n eu penodi
- Na fydd rhiant lywodraethwyr ysgolion meithrin yn gorfod gwasanaethu am gyfnod o ddwy flynedd ragor - fel rhiant lywodraethwyr eraill, gellir pennu cyfnod gwasanaeth iddynt sy'n para rhwng 1-4 blynedd
- Caiff aelodau cysylltiol a benodir i bwyllgorau wasanaethu am gyfnod sy'n amrywio o 1-3 blynedd. Gellir hefyd eu hailbenodi am gyfnodau gwasanaeth hwy, terfynu eu gwasanaeth gan y corff llywodraethu ar unrhyw adeg (heb fod angen i gorff llywodraethu fynd drwy'r broses a bennir yn y rheoliadau i

[4] Llywodraethwr ex officio yw llywodraethwr sefydledig sy'n dal swydd ac yn rhinwedd honno mae ganddo'r hawl i fod yn llywodraethwr sefydledig. Er enghraifft, caiff offeiriad plwyf fod yn llywodraethwr ex officio i ysgol wirfoddol a gynorthwyir.

derfynu gwasanaeth llywodraethwyr) ac fe ellir eu gwahardd o'u gwasanaeth am yr un rhesymau ag sy'n berthnasol i lywodraethwyr.

***C.25 Ydych chi'n cytuno y dylid penodi llywodraethwyr ac aelodau cysylltiol am gyfnod rhwng 1 - 4 blynedd?***

***C.26 Ydych chi'n cytuno y dylai corff llywodraethu bennu'r cyfnod gwasanaethu i bob llywodraethwr ac eithrio:***

- ***i. Llywodraethwyr "ex officio"***
- ***ii Llywodraethwyr sefydledig a llywodraethwyr partneriaeth lle bydd telerau ymddiriedolaeth yr ysgol neu weithred y sefydliad yn golygu na chaiff y corff llywodraethu bennu cyfnod eu gwasanaeth?***

***C.27 Ydych chi'n poeni bod y gofyniad i bob llywodraethwr ddilyn hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr yn golygu bod y cyfnod lleiaf o 1 flwyddyn yn rhy fyr?***

**Ymddiswyddo**
92. Caiff pob llywodraethwr, gan gynnwys pennaeth, gynnig ei ymddiswyddiad unrhyw bryd. Cyflwynwyd darpariaeth newydd a fydd yn caniatáu i bennaeth dynnu ei ymddiswyddiad yn ôl unrhyw bryd.

**Terfynu gwasanaeth llywodraethwyr**
93. Bydd yr egwyddor yn rheoliadau llywodraethu ysgolion 2005 - mai dim ond y sawl neu'r cyrff sy'n penodi llywodraethwyr a gaiff derfynu eu gwasanaeth - yn parhau. Ni ellir terfynu gwasanaeth rhiant lywodraethwyr etholedig a staff lywodraethwyr.

94. Yn y Rheoliadau Newydd, bydd corff llywodraethu'n gallu terfynu gwasanaeth rhiant lywodraethwyr penodedig; llywodraethwyr cymunedol; llywodraethwyr cyfetholedig; disgybl lywodraethwyr, a llywodraethwyr partneriaeth (er y caiff y sawl sy'n enwebu llywodraethwyr partneriaeth ofyn am derfynu gwasanaeth eu llywodraethwyr a rhaid iddynt roi eu rhesymau dros hynny i'r Clerc).

95. Mae'r broses ar gyfer terfynu gwasanaeth llywodraethwyr yn aros fwy neu lai fel yr oedd yn Rheoliadau 2005 gydag un newid sy'n berthnasol i lywodraethwyr partneriaeth. Os bydd corff llywodraethu'n cael cais i derfynu gwasanaeth llywodraethwr partneriaeth gan y sawl a'i henwebodd, rhaid i'r corff llywodraethu ystyried y rhesymau a roddir a rhoi cyfle i'r llywodraethwr dan sylw ymateb i'r terfynu arfaethedig.

***C.28 Oes yna unrhyw beth yn eich poeni am gadw at broses terfynu gwasanaeth llywodraethwyr sy'n debyg i'r broses yn Rheoliadau 2005? Os oes, pam?***

## Cyfarfodydd a thrafodion

**Cynnull cyfarfodydd lle bydd terfynu gwasanaeth llywodraethwr yn cael ei ystyried**
96. O dan Reoliadau 2005, rhaid rhoi o leiaf 7 niwrnod o rybudd o gyfarfod lle bydd corff llywodraethu'n ystyried terfynu gwasanaeth llywodraethwr. Rhaid i derfynu gwasanaeth llywodraethwr hefyd fod yn eitem ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

97. Rydym yn cynnig y bydd y gofynion hyn yn parhau ar gyfer pob categori o lywodraethwr y terfynir ei wasanaeth gan gorff llywodraethu o dan y Rheoliadau newydd. Bydd hyn yn cynnwys rhiant lywodraethwyr, llywodraethwyr cymunedol, llywodraethwyr cyfetholedig, llywodraethwyr partneriaeth a disgybl lywodraethwyr. Credwn y bydd hyn yn rhoi digon o amser i lywodraethwyr y trafodir terfynu eu gwasanaeth baratoi ar gyfer y cyfarfod.

98. Bydd cynnull cyfarfodydd i derfynu gwasanaeth llywodraethwyr dros ben (a fydd yn cael ei benderfynu ar sail sgiliau yn hytrach nag ar sail hyd y cyfnod gwasanaethu) hefyd yn dilyn y broses hon. Os bydd nifer o lywodraethwyr sefydledig dros ben, y sawl neu'r corff sy'n gyfrifol am benodi'r llywodraethwyr sefydledig fydd yn penderfynu ynghylch y rheini.

***C.29 Oes gennych unrhyw sylwadau am y cynigion hyn ynglŷn â therfynu gwasanaeth llywodraethwyr?***

**Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd**
99. O dan y trefniadau presennol, rhaid ethol cadeirydd a dirprwy gadeirydd bob blwyddyn.

100. Yn y Rheoliadau Newydd rydym yn cynnig y caiff y corff llywodraethu ethol cadeirydd a dirprwy gadeirydd am gyfnod sy'n para rhwng 1 - 4 blynedd, ar yr amod nad yw'r cyfnod gwasanaethu'n hwy na'r cyfnod sydd gan y cadeirydd neu'r dirprwy gadeirydd ar ôl i wasanaethu fel llywodraethwr. Er enghraifft, ni chaiff llywodraethwr sydd â dwy flynedd ar ôl i wasanaethu fod yn gadeirydd am fwy na'r cyfnod hwnnw. Dim ond llywodraethwyr nad ydynt yn cael eu talu i weithio yn yr ysgol ac nad ydynt yn ddisgyblion yn yr ysgol a gaiff fod yn gadeirydd.

***C.30 Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i ethol cadeiryddion a dirprwy gadeiryddion am gyfnod sy'n para hyd at 4 blynedd?***

**Cyfathrebu, cofnodion a phapurau electronig**
101. Rydym yn credu y byddai'n fuddiol i gyrff llywodraethu gael dewis defnyddio dulliau cyfathrebu electronig megis cynadleddau fideo o dan amgylchiadau penodol. Bydd hyn yn galluogi llywodraethwyr na fyddent yn gallu dod i gyfarfod y corff llywodraethu'n bersonol - oherwydd anawsterau trafnidiaeth efallai - i gymryd rhan a chyfrif tuag at gworwm y cyfarfod. Serch hynny, byddai angen cynnal cyfarfod gwirioneddol o hyd h.y. nid yw cyfarfodydd cwbl "rithiol" lle na fyddai dim llywodraethwyr yn cyfarfod o fewn cwmpas y cynigion.

102. Rydym hefyd yn credu bod y dull presennol o gofnodi a chadw cofnodion papur yn draul ar amser ac yn hen ffasiwn. Cynigiwn y caiff y clerc anfon papurau'n electronig at bob llywodraethwr, storio dogfennau'r corff llywodraethu'n electronig a chynhyrchu cofnodion electronig.

103. O dan y trefniadau hyn, rhaid i unrhyw welliannau gan y cadeirydd gael eu 'holrhain' a'u cadw'n gofnod. Bydd yn golygu na fydd angen i'r cadeirydd lofnodi pob tudalen o'r cofnodion. Gellir hefyd anfon fersiynau electronig at yr awdurdod lleol ar yr amod bod pob parti'n cytuno i'r trefniant hwn.

104. Bydd y gofyniad bod papurau, agendâu, cofnodion y corff llywodraethu ac ati'n gorfod cael eu darparu i'w harchwilio yn yr ysgol yn parhau. Serch hynny, bellach, bydd yn bosibl darparu fersiynau electronig o'r dogfennau hyn.

105. Ac eithrio cynadleddau fideo, mae'r trefniadau newydd hyn ar gyfer cyfathrebu, cofnodion a phapurau electronig yn berthnasol hefyd i bwyllgorau cyrff llywodraethu.

106. Nid ydym yn credu bod angen i bwyllgorau allu defnyddio cynadleddau fideo oherwydd bod eu cyfarfodydd fel rheol yn llai na chyfarfodydd y corff llywodraethu llawn ac felly'n haws eu haildrefnu os bydd rhai aelodau'n methu â bod yn bresennol.

***C.31 Ydych chi o blaid y cynigion hyn ynghylch cyfathrebu, cofnodion a chadw cofnod electronig?***

## Pwyllgorau cyrff llywodraethu

### Aelodau cysylltiol

107. Bydd y Rheoliadau newydd yn dweud:

- Bod modd penodi aelodau cysylltiol i bwyllgorau corff llywodraethu
- Y cânt wasanaethu am gyfnod sy’n para rhwng 1-4 blynedd yn unol â chytundeb y corff llywodraethu
- Y pennir eu hawliau pleidleisio gan y corff llywodraethu
- Y ceir terfynu eu gwasanaeth drwy benderfyniad y corff llywodraethu ar unrhyw adeg.

***C.32 Oes gennych chi farn o gwbl am y cynigion ynghylch pwyllgorau'r corff llywodraethu a'r aelodau cysylltiol?***

### Pwyllgorau disgyblu a diswyddo staff a phwyllgorau apêl

108. Rhaid i bob pwyllgor disgyblu a diswyddo staff a phwyllgorau apêl sy'n delio â honiadau bod aelod o staff yr ysgol wedi achosi niwed i blentyn[5] gynnwys aelod annibynnol nad yw'n llywodraethwr a bydd gan hwnnw hawliau pleidleisio awtomatig.

109. Dymunwn estyn y trefniant hwn i gynnwys pob achos disgyblu staff yr ymdrinnir ag ef gan bwyllgor disgyblu a diswyddo'r corff llywodraethu. Credwn y bydd cyflwyno pobl ag arbenigedd a safbwynt annibynnol yn amhrisiadwy i lywodraethwyr sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau am ddisgyblu ac o bosibl am ddiswyddo.

[5] Ystyr hyn yw cam-drin corfforol, rhywiol neu emosiynol.

110. Caiff y person annibynnol fod yn rhywun a ddynodir gan y corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol ac fe gaiff hefyd fod yn aelod cysylltiol.

111. Fel y trafodwyd eisoes ym mharagraff 47 uchod, nid yw "aelodau cysylltiol" yn llywodraethwyr; byddant yn cael eu gwahodd gan y corff llywodraethu i ddod i wahanol bwyllgorau a bydd eu hawliau pleidleisio'n cael eu pennu gan y corff llywodraethu pan benodir hwy.

112. Oherwydd bod aelodau cysylltiol yn cael eu penodi i wasanaethu ar bwyllgorau ar sail gymharol "sefydlog", credwn y gallai fod yn fuddiol i gyrff llywodraethu allu penodi aelod cysylltiol yn berson annibynnol ar bwyllgor disgyblu, yn hytrach na'i bod yn rhaid i'r corff llywodraethu fynd i'r drafferth o ddod o hyd i berson annibynnol i eistedd ar bwyllgorau disgyblu/diswyddo. *(Sylwer <u>nad ydym</u> yn cynnig caniatáu i aelodau cysylltiol gael eu penodi'n ymchwilwyr annibynnol yn achos honiadau o niwed i ddisgybl).*

113. Rydym yn sylweddoli pa mor bwysig yw sicrhau bod pob person annibynnol - boed yn aelod cysylltiol ai peidio - yn wirioneddol annibynnol. Felly, rydym yn cynnig estyn y meini prawf a bennir ar hyn o bryd yn rheoliad 55(4A) o Reoliadau 2005 y mae'n rhaid i unigolyn eu cyflawni er mwyn cael eu ystyried yn "annibynnol", ac felly ei bod yn rhaid i'r corff llywodraethu gredu hefyd y bydd yr unigolyn y mae'n dymuno'i benodi'n berson annibynnol:

- Yn gweithredu'n deg ac yn ddiduedd
- Yn cael ei ystyried yn rhesymol yn rhywun sy'n gallu gweithredu'n deg a cyn ddiduedd.

114. Er enghraifft, rhaid i gorff llywodraethu gytuno ar ddau o'u llywodraethwyr i fod yn aelodau o'r pwyllgor disgyblu a diswyddo staff. O dan y Rheoliadau Newydd, bydd angen iddynt hefyd gael person annibynnol i gwblhau aelodaeth y pwyllgor. Efallai y byddant yn penderfynu penodi pennaeth o awdurdod lleol cymdogol i fod yn aelod cysylltiol ac felly'n "berson annibynnol" dynodedig ar bwyllgor disgyblu a diswyddo'r staff. Os na fydd y pennaeth hwnnw ond yn mynychu cyfarfodydd pwyllgor disgyblu'r corff llywodraethu ac na fydd yn mynychu dim cyfarfodydd pwyllgor eraill na chyfarfodydd y corff llywodraethu - yna, credwn y gellid ystyried ei fod yn ddigon annibynnol.

115. Pan benodir rhywun yn berson annibynnol, bydd hynny'n dod â'r hawl awtomatig yn ei sgil i bleidleisio yn y pwyllgor.

116. Rydym yn dal i ddymuno cadw'r hyblygrwydd i ganiatáu i gyrff llywodraethu benodi "personau annibynnol" nad ydynt yn aelodau cysylltiol os byddant yn dymuno gwneud hynny.

***C.33 Ydych chi'n cytuno y dylai pob pwyllgor disgyblu staff gynnwys person annibynnol?***

***C.34 Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i estyn y meini prawf ar gyfer ystyried bod unigolyn yn "annibynnol"?***

***C.35 Ydych chi'n cytuno y dylai aelodau cysylltiol gael bod yn bobl annibynnol ar yr amod eu bod yn cyflawni'r meini prawf annibyniaeth a drafodwyd ym mharagraff 113?***

## Rhan 2: Newidiadau arfaethedig i Reoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 (Rheoliadau 2014)

*Cynigir y dylai rhai neu’r cyfan o'r Rhannau a'r Atodlenni canlynol yn y Rheoliadau Newydd sydd yn Atodiad A, ddisodli Rheoliadau 2014:*

- *Rhan 4:  "Categorïau o lywodraethwyr" ac Atodlenni 2,3 a 4*
- *Rhan 5: Pennod 1 "Cyfansoddiad corff llywodraethu: ysgolion ffederal"*
- *Rhan 5: Pennod 3 "Cymwysterau a daliadaeth swydd”*
- *Rhan 5: Pennod 4 "Offeryn llywodraethu, cynghorau ysgol a statws elusennol"*
- *Rhan 5: Pennod 5 "Penodi swyddogion, eu swyddogaethau a therfynu eu gwasanaeth"*
- *Rhan 5: Pennod 6 "Cyfarfodydd a thrafodion y corff llywodraethu"*
- *Rhan 5: Pennod 7 "Pwyllgorau cyrff llywodraethu"*
- *Rhan 5: Pennod 8 "Cyfyngiadau ar bobl yn cymryd rhan yn nhrafodion y corff llywodraethu neu ei bwyllgorau"*
- *Rhan 6: Pennod 1 "Sefydlu neu ymuno â ffederasiwn" ac Atodlen 7*
- *Rhan 6: Pennod 2 "Gwybodaeth ac ariannu ffederasiynau"*
- *Rhan 6: Pennod 3 "Ysgolion ffederal yn ymadael â ffederasiwn"*
- *Rhan 6: Pennod 4 "Diddymu ffederasiynau"*

### Golwg gyffredinol

1. Rydym yn cynnig y dylai strwythur llywodraethu ffederasiynau fod mor debyg â phosibl i strwythur ysgol "sengl" gyfatebol. Er enghraifft, bydd corff llywodraethu ffederasiwn o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn debyg iawn i gorff llywodraethu ysgol wirfoddol sengl a gynorthwyir.

2. Rydym yn bwriadu cadw'r ddarpariaeth sy'n dweud mai dim ond ysgolion sy'n perthyn i'r un categori cyffredinol a gaiff ffedereiddio.  Er enghraifft, dim ond gydag ysgolion sefydledig eraill y caiff ysgolion sefydledig ffedereiddio a dim ond gydag ysgolion cymunedol eraill y caiff ysgolion cymunedol ffedereiddio.

3. Dim ond gyda'i gilydd hefyd y caiff ysgolion gwirfoddol ffedereiddio; rydym yn bwriadu parhau i ganiatáu i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ffedereiddio ag ysgolion gwirfoddol a reolir.

4. Bydd categorïau o lywodraethwyr ysgol a newidiadau i gyfnodau gwasanaethu'n adlewyrchu'r rheini mewn ysgolion "sengl" fel y bydd newidiadau i'r gofynion ynglŷn â phwyllgorau corff llywodraethu gan gynnwys pwyllgorau disgyblu staff a phwyllgorau apêl. Bydd cyrff llywodraethu sydd wedi ffedereiddio hefyd yn gallu penodi aelodau cysylltiol i'w pwyllgorau.

5. Serch hynny, bydd rhai gwahaniaethau yn strwythur llywodraethu cyrff llywodraethu "ysgolion sengl" o'u cymharu â chyrff llywodraethu ysgolion ffederal. Trafodir y rhain isod.

***C.36 Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylai strwythur llywodraethu ffederasiynau fod yn debyg i strwythur ysgol "sengl" gyfatebol?***

## Aelodaeth cyrff llywodraethu ffederal

**Cyrff llywodraethu ffederal medrus**
6. Credwn y dylai llywodraethwyr ffederal gynrychioli buddiannau'r ffederasiwn a'i holl ddisgyblion, nid dim ond buddiannau ysgol benodol.

7. Felly, caiff y Meini Prawf Sgiliau (neu'r Meini Prawf Cyfetholedig ar gyfer llywodraethwyr sydd wedi'u cyfethol) eu diwygio a bydd yn rhaid i bob llywodraethwr a benodir i gorff llywodraethu ffederal feddu hefyd, ym marn y sawl neu'r corff sy'n ei benodi, y sgiliau i gyfrannu at lywodraethu'r ffederasiwn yn effeithiol a'i lwyddiant.

***C.37 Ydych chi'n cytuno â'r cynigion hyn i ddiwygio'r Meini Prawf Sgiliau a'r Meini Prawf Cyfetholedig ar gyfer ffederasiynau?***

**Llywodraethwyr cyrff llywodraethu ffederal**

**Rhiant Lywodraethwyr**
8. Rydym yn cynnig na fydd angen cael rhiant lywodraethwr o bob ysgol sy'n perthyn i'r ffederasiwn bellach oni fydd yr Offeryn Llywodraethu'n dweud yn wahanol.

9. Yn hytrach, y gofyniad newydd fydd bod o leiaf un rhiant lywodraethwr sydd wedi'i ethol ac un sydd wedi'i benodi'n cynrychioli buddiannau holl rieni'r ffederasiwn. Gallai'r rhiant lywodraethwr sydd wedi'i ethol ddod o unrhyw un o'r ysgolion yn y ffederasiwn ac fe gaiff y rhiant lywodraethwr sydd wedi'i benodi fod yn rhiant i blentyn sy'n ddisgybl ar y pryd neu'n rhiant i gyn-ddisgybl mewn unrhyw un o'r ysgolion yn y ffederasiwn ac fe'i penodir am y sgiliau sydd ganddo i'w cynnig.

10. Os bydd corff llywodraethu ffederasiwn yn dewis cael rhiant lywodraethwyr o bob ysgol, caiff wneud hynny, ond, fel sy'n wir am ysgolion "sengl", ni chaiff nifer y rhiant lywodraethwyr sydd wedi'u hethol fod yn fwy na nifer y rhiant lywodraethwyr sydd wedi'u penodi.

***C.38 Ydych chi'n cytuno â'r cynigion hyn ar gyfer rhiant lywodraethwyr ffederasiwn?***

**Staff Lywodraethwyr**
11. O dan Reoliadau 2014, dim ond am gyfnod o 2 flynedd y bydd athrawon lywodraethwyr a staff lywodraethwyr yn gwasanaethu. Bydd unrhyw athro neu staff lywodraethwr sydd wedi gwasanaethu am gyfnod o ddwy flynedd yn cael ei anghymhwyso rhag sefyll yn yr etholiadau a gynhelir i benodi llywodraethwyr yn eu lle.

12. Hefyd ni chaiff yr ysgolion y mae'r athrawon neu'r staff lywodraethwyr yn dod ohonynt gynnig aelodau o'u staff hwy i lenwi'r lleoedd gwag sy'n codi pan fydd cyfnod gwasanaethu'r llywodraethwyr hyn yn dod i ben. Mae'r trefniant hwn yn helpu i atal sefyllfa lle bydd ysgolion mwy o faint sy'n ffedereiddio ag ysgolion llai'n tra-arglwyddiaethu o ran athrawon/staff lywodraethwyr.

13. Rydym yn dymuno parhau â'r gwaharddiad hwn ar gyfer y categori cyfun o staff lywodraethwyr, ac eithrio bod y gwaharddiad dwy flynedd yn cael ei gwtogi i flwyddyn er mwyn cyd-fynd â'r polisi newydd, sef caniatáu i lywodraethwyr wasanaethu am flwyddyn. Serch hynny, os na fydd yr un staff lywodraethwr yn sefyll etholiad o blith yr ysgolion "cymwys" yn y ffederasiynau, yna, caiff yr ysgol sydd wedi darparu staff lywodraethwr yn ystod y flwyddyn flaenorol gynnig enwebiad. Bwriad hyn yw sicrhau bod cynrychiolaeth o blith staff lywodraethwyr ar y corff llywodraethu.

14. Os bydd y corff llywodraethu'n dymuno cael mwy nag un staff lywodraethwr, caiff wneud hynny.

***C.39 Ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn ar gyfer staff lywodraethwyr ffederasiwn?***

**Llywodraethwyr awdurdodau lleol**
15. Y gofyniad newydd yw mai dim ond un llywodraethwr awdurdod lleol a ddylai fod mewn ffederasiwn. Felly, os yw'r ffederasiwn yn cynnwys ysgolion o sy'n dod o dan wahanol awdurdodau lleol, bydd yn rhaid i'r awdurdodau lleol gytuno pa un ohonynt fydd yn darparu'r llywodraethwr awdurdod lleol.

***C.40 Ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn ar gyfer llywodraethwyr awdurdodau lleol ffederasiwn?***

**Llywodraethwyr cymunedol**
16. Fel sy'n wir am ysgolion sengl, un llywodraethwr cymunedol fydd ac eithrio pan fydd ffederasiwn yn cynnwys ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn unig, ac mewn sefyllfa o'r fath, ni fydd dim llywodraethwyr cymunedol.

***C.41 Ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn ar gyfer llywodraethwyr cymunedol ffederasiwn?***

**Llywodraethwyr sefydledig**
17. Mae'r gofynion ar gyfer llywodraethwyr sefydledig mewn ffederasiynau o ysgolion gwirfoddol neu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yr un fath ag ar gyfer ysgolion sengl cyfatebol.

18. Mewn ffederasiynau o ysgolion gwirfoddol a reolir sy'n cynnwys 3 ysgol neu fwy, bydd ein cynigion ar gyfer pennu'r nifer lleiaf o lywodraethwyr sefydledig yn golygu na fydd gan bob ysgol o anghenraid lywodraethwr sefydledig oherwydd mai'r nifer lleiaf a bennir yw 2. (Penodir llywodraethwyr i gynrychioli buddiannau'r ffederasiwn yn ei gyfanrwydd, nid ysgolion unigol).

19 Serch hynny, ni chredwn y bydd hyn yn broblem. Efallai y bydd yr Offeryn Llywodraethu yn dweud y ceir penodi rhagor o lywodraethwyr sefydledig os bydd y corff llywodraethu'n meddwl bod angen cael llywodraethwyr sefydledig o bob ysgol yn y ffederasiwn. Fel sy'n wir am ysgolion sengl, ni chaiff cyfanswm nifer llywodraethwyr o'r fath fod yn fwy na thraean cyfanswm y llywodraethwyr ar ôl talgrynnu i fyny neu i lawr i'r rhif cyfan agosaf.

20. Ar gyfer ffederasiwn sy'n cynnwys ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn unig, neu ffederasiynau "cymysg" o ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, bydd y ffaith bod gofyn sicrhau bod nifer y llywodraethwyr sefydledig ddau yn fwy na chyfanswm yr holl lywodraethwyr eraill i gyd yn golygu na ddylai'r broblem hon godi, hyd yn oed yn y ffederasiynau mwyaf sy'n cynnwys 6 ysgol.

***C.42 Ydych chi'n cytuno â'r cynigion hyn ar gyfer llywodraethwyr sefydledig?***

**Llywodraethwyr partneriaeth**

21. Mewn ffederasiynau o ysgolion sefydledig sy'n cynnwys o leiaf 1 ysgol sefydledig sy'n penodi llywodraethwyr partneriaeth (oherwydd nad oes ganddi sefydliad) rhaid cael o leiaf 2 lywodraethwr partneriaeth neu lywodraethwr partneriaeth a llywodraethwr sefydledig. Gallai hyn olygu na fydd gan bob ysgol yn y ffederasiwn o anghenraid lywodraethwr partneriaeth neu sefydledig. (Penodir llywodraethwyr i gynrychioli buddiannau'r ffederasiwn yn ei gyfanrwydd, nid ysgolion unigol).

22. Fel sy'n wir am ffederasiynau o ysgolion gwirfoddol a reolir, ni chredwn y dylai hyn fod yn broblem, oherwydd gall yr offeryn llywodraethu ddweud y ceir penodi rhagor o lywodraethwyr partneriaeth neu lywodraethwyr partneriaeth a sefydledig os bydd angen. Fel sy'n wir am ysgolion sengl, ni chaiff cyfanswm nifer llywodraethwyr o'r fath fod yn fwy na thraean cyfanswm y llywodraethwyr ar ôl talgrynnu i fyny neu i lawr i'r rhif cyfan agosaf.

***C.43 Ydych chi'n cytuno â'r cynigion hyn ar gyfer llywodraethwyr partneriaeth?***

**Disgybl lywodraethwyr**

23. Fel sy'n wir am ysgolion sengl, mae darpariaeth o hyd i ddisgyblion ethol hyd at 2 ddisgybl o flynyddoedd 11 i 13 i'w penodi'n ddisgybl lywodraethwyr ar gorff llywodraethu ffederasiwn.

**Llywodraethwyr cyfetholedig ac aelodau cysylltiol**

24. Fel sy'n wir am ysgolion sengl, bydd gan gyrff llywodraethu ffederal gategori newydd o lywodraethwyr sydd wedi'u cyfethol a byddant yn cael penodi aelodau cysylltiol i'w pwyllgorau.

25. Ni fydd gan gyrff llywodraethu ffederal lywodraethwyr nawdd, na llywodraethwyr cynrychioladol neu gymunedol ychwanegol.

## Cyfansoddiad cyrff llywodraethu ffederal

**Golwg gyffredinol**

26. Fel sy'n wir am ysgolion sengl, credwn fod y fframwaith llywodraethu ysgolion ffederal ar hyn o bryd yn rhy feichus ac yn or-gymhleth.

27. Rydym yn awyddus i sicrhau hyblygrwydd er mwyn i gyrff llywodraethu ffederal allu dewis aelodau sy'n gweddu i anghenion penodol eu hysgolion, a bod yr un gofynion "craidd" yn berthnasol i bob ffederasiwn, ni waeth am eu maint. Rydym hefyd yn dymuno sicrhau cysondeb, felly rydym yn cynnig y dylai cyfansoddiad corff

llywodraethu ffederal fod mor debyg ag y bo modd i gyfansoddiad corff llywodraethu ysgol sengl gyfatebol.

28. Mae gofynion ychwanegol ar gyfer ffederasiynau o ysgolion gwirfoddol a sefydledig ac fe drafodir y rheini isod ym mharagraff 31. Mae'r gofynion hyn yn gyson â'r gofynion ychwanegol ar gyfer ysgolion gwirfoddol a sefydledig sengl.

**Y gofynion craidd ar gyfer llywodraethwyr pob corff llywodraethu ffederal.**
29. Rydym yn cynnig ar gyfer pob ffederasiwn, ac eithrio'r rheini sy'n cynnwys un ysgol wirfoddol a gynorthwyir yn unig, ei bod yn rhaid i gorff llywodraethu gynnwys y 7 llywodraethwr "craidd" a ganlyn:

- O leiaf un rhiant lywodraethwr sydd wedi'i benodi
- O leiaf un rhiant lywodraethwr sydd wedi'i ethol
- O leiaf un staff lywodraethwr
- Pennaeth y ffederasiwn - oni fydd yn ymddiswyddo o'i swydd. (Ar gyfer y ffederasiynau hynny sy'n parhau i fod â phennaeth ar bob ysgol, bydd y sefyllfa bresennol yn parhau lle bydd pennaeth pob ysgol yn y ffederasiwn yn llywodraethwr oni fydd yn ymddiswyddo)
- Un llywodraethwr awdurdod lleol ond dim mwy
- Un llywodraethwr cymunedol ond dim mwy
- O leiaf un llywodraethwr sydd wedi'i gyfethol.

30. Mewn ffederasiwn sy'n cynnwys ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn unig, y gofyniad craidd fydd 6 chategori o lywodraethwyr yn hytrach na 7. Y rheswm dros hyn yw oherwydd nad oes gan ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir lywodraethwyr cymunedol.

**Gofynion ychwanegol ar gyfer ysgolion gwirfoddol a sefydledig**
31. Yn ogystal â'r gofynion craidd, rhaid i ffederasiynau o ysgolion gwirfoddol a sefydledig gael yr un nifer o lywodraethwyr sefydledig neu bartneriaeth ag sydd gan ysgolion sengl cyfatebol. Mae hyn yn golygu:

- Rhaid i ffederasiynau o ysgolion gwirfoddol a reolir neu ysgolion sefydledig gael dau llywodraethwr sefydledig o leiaf, neu ddau lywodraethwr partneriaeth mewn ysgolion sefydledig sydd heb sefydliad. Mae'n bosibl iddynt gael mwy na hynny, ond ni chaiff cyfanswm nifer y llywodraethwyr sefydledig fod yn fwy na thraean cyfanswm y llywodraethwyr eraill
- Rhaid i ffederasiynau o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir gael digonol o lywodraethwyr sefydledig er mwyn i'w nifer fod ddau yn fwy na chyfanswm y llywodraethwyr eraill i gyd, ond nid yn fwy na hynny

- Mewn ffederasiynau "cymysg" sy'n cynnwys ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, rhaid i nifer y llywodraethwyr sefydledig hefyd fod ddau yn fwy na nifer yr holl lywodraethwyr eraill.

***C.44 Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer aelodaeth cyrff llywodraethu ffederal?***

**Dim terfyn ar y nifer mwyaf o lywodraethwr**

32. Fel sy'n wir mewn ysgolion sengl, o dan y trefniadau arfaethedig newydd, caiff Offeryn Llywodraethu ffederasiwn bennu cyfanswm mwyaf a chyfanswm lleiaf ar gyfer nifer y llywodraethwyr yn ogystal â'r nifer mwyaf a'r nifer lleiaf yng nghategorïau'r rhiant lywodraethwyr, staff lywodraethwyr a llywodraethwyr cyfetholedig.

33. Caiff ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion sefydledig hefyd bennu'r nifer mwyaf a'r nifer lleiaf o lywodraethwyr sefydledig neu bartneriaeth, gan ddilyn yr un rheolau ac sy'n berthnasol i ysgolion sengl.

34. Bydd hyn yn golygu bod cyrff llywodraethu ffederasiynau'n gallu ymaddasu'n haws i anghenion eu hysgolion wrth iddynt newid, heb orfod diwygio'u hofferyn llywodraethu o hyd.

***C.45 Ydych chi'n cytuno na ddylid pennu terfyn uchaf ar faint corff llywodraethu ffederal?***

***C.46 Ydych chi o blaid cael hyblygrwydd sy'n golygu bod modd pennu'r nifer mwyaf a'r nifer lleiaf o lywodraethwyr mewn ffederasiwn, a bwrw bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr offeryn llywodraethu? Os nad ydych, pam?***

## Ffedereiddio ysgolion newydd

35. Ein cynnig yw y dylai cyrff llywodraethu dros dro pob ysgol newydd sy'n dymuno ffedereiddio, neu y bydd yr awdurdod lleol yn ei ffedereiddio, ail-greu - cyn belled ag y bo modd - strwythur llywodraethu corff llywodraethu ysgol dros dro sengl.

36. Er enghraifft, bydd corff llywodraethu dros dro ysgol gymunedol sy'n dymuno ffedereiddio neu a gaiff ei ffedereiddio gan yr awdurdod lleol yr un fath â chorff llywodraethu dros dro ysgol gymunedol newydd nad yw'n cael ei ffedereiddio. Mae ein cynigion ar gyfer cyrff llywodraethu dros dro ysgolion sengl i'w gweld yn Rhan 3 o'r ddogfen hon.

37. Os bydd dwy ysgol newydd neu ragor yn dymuno ffedereiddio a bod yr awdurdod lleol am weld un corff llywodraethu dros dro, rhaid i'r corff llywodraethu dros dro hwnnw hefyd fod mor debyg â phosibl i gorff llywodraethu ysgol sengl sy'n perthyn i gategori cyfatebol. Er enghraifft, bydd gan gorff llywodraethu dros dro dwy ysgol neu fwy na dwy ysgol wirfoddol newydd a gynorthwyir sy'n dymuno ffedereiddio yr un strwythur llywodraethu ag ysgol sengl wirfoddol dros dro a gynorthwyir.

38. Os bydd ysgol wirfoddol newydd a reolir yn dymuno ffedereiddio ag ysgol wirfoddol newydd a gynorthwyir, bydd un corff llywodraethu dros dro'n cynnwys y "craidd" canlynol:

a) 2 riant lywodraethwr sydd wedi'u penodi
b) 1 staff lywodraethwr sydd wedi'i benodi
c) Pennaeth arfaethedig y ffederasiwn
d) 1 llywodraethwr awdurdod lleol
e) 1 llywodraethwr cymunedol
f) O leiaf 1 llywodraethwr sydd wedi'i gyfethol

39. Yn ogystal â hynny, rhaid sicrhau bod nifer y llywodraethwyr sefydledig ddau yn fwy na chyfanswm y llywodraethwyr eraill yn (a) - (f) uchod.

***Q.47 Ydych chi'n cytuno â'r cynigion hyn ar gyfer ffedereiddio ysgolion newydd?***

## Newidiadau eraill

40. Bydd pob newid arall i'r fframwaith llywodraethu ysgolion ar gyfer ysgolion sengl yr ymgynghorir yn eu cylch yn Rhan 1 o'r ddogfen hon yn berthnasol i ffederasiynau. Mae hyn yn cynnwys cynigion am y canlynol:

- Llywodraethwyr dros ben
- Penodiadau, anghymhwyso, cyfnodau gwasanaethu a therfynu gwasanaeth llywodraethwyr
- Cyfarfodydd a thrafodion
- Phwyllgorau (gan gynnwys pwyllgor disgyblu a diswyddo staff).

***C.48 Ydych chi o blaid y newidiadau hyn ar gyfer ffederasiynau?***

## Rhan 3: Newidiadau arfaethedig i Reoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd (Cymru) 2005 (Rheoliadau 2005)

*Cynigir y dylai rhai neu’r cyfan o'r Rhannau a'r Atodlenni a ganlyn o'r Rheoliadau Newydd sydd yn Atodiad A ddisodli Rheoliadau 2005:*

- Rhan 7: Pennod 1 "Diffiniadau sy'n berthnasol at ddibenion Rhan 7"
- Rhan 7: Pennod 2 "Ymgorffori cyrff llywodraethu dros dro"
- Rhan 7: Pennod 3 "Categorïau o lywodraethwyr dros dro"
- Rhan 7: Pennod 4 "Cyfansoddiad cyrff llywodraethu dros dro"
- Rhan 7: Pennod 5 "Daliadaeth a chymwysterau llywodraethwyr dros dro"
- Rhan 7: Pennod 6 "Ymddygiad cyffredinol ysgolion newydd"
- Rhan 7: Pennod 7 "Swyddogion, cyfarfodydd, gweithdrefnau, pwyllgorau a gwrthdaro buddiannau"
- Rhan 7: Pennod 8 "Trosi o fod yn gorff llywodraethu dros dro i fod yn gorff llywodraethu".

### Golwg gyffredinol

1. Rydym yn cynnig diweddaru Rheoliadau 2005 er mwyn iddynt roi sylw i'n diwygiadau arfaethedig i strwythur llywodraethu pob ysgol a gynhelir yng Nghymru a nodir yn Rhan 1 o'r ddogfen.

2. Lle bydd hynny'n bosibl, bydd aelodaeth a chyfansoddiad corff llywodraethu dros dro ar gyfer ysgol newydd yn adlewyrchu aelodaeth arfaethedig a chyfansoddiad ysgol gyfatebol sydd wedi'i sefydlu eisoes. Er enghraifft, bydd corff llywodraethu dros dro ysgol wirfoddol a gynorthwyir yn debyg iawn i gorff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyir sydd wedi'i sefydlu eisoes.

3. Serch hynny, oherwydd natur fyrhoedlog cyrff llywodraethu ysgolion newydd, bydd rhai gwahaniaethau rhyngddynt a chyrff llywodraethu ysgolion sydd wedi'u sefydlu eisoes. Rhestrir y gwahaniaethau amlycaf isod.

### Gwahaniaethau mewn cyrff llywodraethu ysgolion dros dro

4. Fel sy'n wir ar hyn o bryd, bydd pob rhiant lywodraethwr a phob staff lywodraethwr yn cael ei benodi.

5. Ni fydd dim disgybl lywodraethwyr nac aelodau cysylltiol. Y rheswm dros hyn yw oherwydd bod cyrff llywodraethu dros dro'n rheoli proses sefydlu ysgol newydd; ar ôl i'r ysgol gael ei hymgorffori ac agor i ddisgyblion, bydd y corff llywodraethu dros dro'n cael ei ddisodli â chorff parhaol. Hefyd, mae natur fyrhoedlog corff llywodraethu dros dro'n golygu nad oes cymaint o angen sicrhau sefydlogrwydd tymor hir ymhlith aelodau'r pwyllgorau drwy benodi aelodau cysylltiol.

6. Yr unigolyn neu'r corff sy'n gyfrifol am benodi llywodraethwyr dros dro yn Rheoliadau 2005 fydd yn gyfrifol am hyn o hyd. Bydd cyrff llywodraethu dros dro'n gyfrifol am benodi'r categori newydd o lywodraethwr cyfetholedig.

7. Efallai na fydd penaethiaid wedi'u penodi eto, ond at ddibenion cyfrifo niferoedd y corff llywodraethu, byddwn yn parhau i dybio bod y pennaeth yn aelod o'r corff llywodraethu dros dro.

8. Yn ogystal â'r "meini prawf profiad" yn rheoliad 19 o Reoliadau 2005, rhaid i'r unigolyn neu'r corff sy'n gwneud y penodiad hefyd gredu bod y llywodraethwr dros dro'n cyflawni'r Meini Prawf Sgiliau - neu'r Meini Prawf Cyfetholedig ar gyfer llywodraethwyr sy'n cael eu cyfethol.

***C.49 Ydych chi'n cytuno â'r gwahaniaethau ar gyfer llywodraethwyr ac aelodaeth cyrff llywodraethu ysgolion dros dro?***

***C.50 Ydych chi'n cytuno y dylai llywodraethwyr penodedig hefyd gyflawni'r Meini Prawf Sgiliau (neu'r Meini Prawf Cyfetholedig ar gyfer llywodraethwyr sy'n cael eu cyfethol)?***

## Pwyllgorau cyrff llywodraethu dros dro

9. Bydd y cynigion newydd ar gyfer trafodion, cworymau, cofnodion ac ati, llywodraethwyr gyda golwg ar gyfarfodydd cyrff llywodraethu sydd wedi'u sefydlu a phwyllgorau a nodir yn Rhan 1 o'r ddogfen hefyd yn berthnasol i gyrff llywodraethu dros dro.

10. Er na fydd gan gorff llywodraethu dros dro aelodau cysylltiol, bydd gofyn iddynt o hyd gael person annibynnol sydd â hawliau pleidleisio ar gyfer yr holl bwyllgorau disgyblu staff a phanelau penodi penaethiaid/dirprwy benaethiaid.

***C. 51 Ydych chi'n cytuno â'r cynigion hyn ynglŷn â phwyllgorau cyrff llywodraethu dros dro?***

## Rhan 4: Newidiadau Arfaethedig i Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006 (Rheoliadau 2006)

*Cynigir y dylai rhai neu'r cyfan o'r Rhannau a ganlyn o'r Rheoliadau Newydd sydd yn Atodiad A ddisodli Rheoliadau 2006:*

- Rhan 8: Pennod 1 "Cyfrifoldeb cyffredinol am staffio ysgolion a gynhelir"
- Rhan 8: Pennod 2 "Materion staffio: ysgolion cymunedol, gwirfoddol a reolir, cymunedol arbennig ac ysgolion meithrin a gynhelir"
- Rhan 8: Pennod 3 "Materion staffio: ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir"
- Rhan 8: Pennod 4 "Materion staffio: ysgolion newydd".

### Golwg gyffredinol

1. Rydym yn cynnig diweddaru Rheoliadau 2006 er mwyn i faterion staffio, lle bydd hynny'n briodol, elwa o rywfaint o'r un newidiadau yr ydym yn eu cynnig ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion yn Rhan 1. Er enghraifft, bydd hawl i ddefnyddio dulliau electronig i gadw cofnodion a chyfathrebu.

2. Serch hynny, rydym hefyd yn cynnig gwneud nifer o newidiadau penodol i agweddau staffio Rheoliadau 2006 er mwyn iddynt adlewyrchu anghenion cyrff llywodraethu a'u hysgolion yn well. Trafodir y cynigion hyn isod.

### Gweithdrefnau disgyblu a diswyddo staff

3. Mae Rheoliad 7A o Reoliadau 2006 yn dweud, o dan amgylchiadau penodol, y ceir penodi ymchwilydd annibynnol i ymchwilio i honiad bod aelod o staff yr ysgol wedi gwneud niwed i ddisgybl cofrestredig.

4. Fel sy'n wir am y meini prawf ar gyfer "personau annibynnol" ar bwyllgorau disgyblu a diswyddo staff, rydym yn cynnig estyn y meini prawf presennol yn rheoliad 7A(11) o Reoliadau 2006 y mae'n rhaid i ddarpar ymchwilwyr annibynnol eu cyflawni er mwyn iddynt gael eu hystyried yn "annibynnol", ac felly rhaid i'r corff llywodraethu hefyd gredu bod yr unigolyn y mae'n dymuno'i benodi'n ymchwilydd annibynnol:

- Yn gweithredu'n deg ac yn ddiduedd
- Yn cael ei weld yn rhesymol yn rhywun a allai weithredu'n deg ac yn ddiduedd.

5. Ar hyn o bryd, os cynhelir ymchwiliad annibynnol, bydd y pennaeth yn cael copi o adroddiad yr ymchwiliad gan y corff llywodraethu cyn ystyried y peth yn ffurfiol a phenderfynu ynghylch y mater - ac eithrio mewn achosion lle bydd yr honiadau'n ymwneud â'r pennaeth ei hun.

6. Rydym yn cynnig estyn y rhesymau pam na fyddai pennaeth o bosibl yn cael copi o'r adroddiad er mwyn cynnwys sefyllfa lle bydd y pennaeth yn dyst i'r digwyddiad neu'r digwyddiadau y seiliwyd yr honiadau o niwed arnynt. Y rheswm dros hyn yw

gallai gweld yr adroddiad "ddylanwadu" ar unrhyw dystiolaeth y bydd y pennaeth yn ei rhoi i'r corff llywodraethu yn ystod y broses benderfynu.

7. Sylwer mai un o'r prif newidiadau a gynigir ar gyfer Rheoliadau 2005 yw y dylai pob pwyllgor disgyblu a diswyddo (nid dim ond y rheini sy'n ymdrin â honiadau o niwed i blentyn) gynnwys rhywun annibynnol nad yw'n llywodraethwr sydd â hawliau pleidleisio llawn, ac y gall hwnnw fod yn aelod cysylltiol. Trafodir hyn yn fanylach ym mharagraffau 108 i 116 o Ran 1 uchod.

***C.52 Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i estyn y meini prawf y mae'n rhaid i ddarpar ymchwilydd annibynnol eu cyflawni er mwyn iddo gael ei ystyried yn "annibynnol"?***

***C.53 Ydych chi'n cytuno na ddylai pennaeth gael copi o'r adroddiad o'r ymchwiliad os yw'n dyst i'r digwyddiad honedig pan gafodd y disgybl niwed?***

## Penodi pennaeth a dirprwy bennaeth

### Gofyniad i hysbysebu swyddi gwag i benaethiaid

8. Rydym wedi clywed nad yw rhai ysgolion yn hysbysebu swyddi gwag i benaethiaid yn ddi-oed ac yn rhesymol o aml nes dod o hyd i ymgeisydd addas. Efallai eu bod yn gwneud hyn er mwyn rhoi amser i benaethiaid "dros dro" basio'r arholiadau i ddod yn bennaeth a gwneud cais am y swydd barhaol.

9. Credwn y gallai peidio â hysbysebu'n ddi-oed a sicrhau pennaeth â'r cymwysterau iawn cyn gynted byth ag sy'n bosibl olygu bod safonau cyrhaeddiad addysgol a lles disgyblion yn dioddef. Felly, rydym yn cynnig cyflwyno gofyniad ei bod yn rhaid i gyrff llywodraethu hysbysebu swydd wag i bennaeth cyn gynted byth ag y bydd hynny'n rhesymol ymarferol ac o leiaf ddwywaith mewn blwyddyn ysgol nes y llenwir y swydd wag.

***C.54 Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ynglŷn â hysbysebu swyddi gwag i benaethiaid.***

### Person annibynnol

10. Penodi pennaeth yw un o'r penderfyniadau pwysicaf y bydd corff llywodraethu'n gorfod ei wneud er mwyn sicrhau llwyddiant yr ysgol. Er bod y dystiolaeth a glywsom yn awgrymu bod cyrff llywodraethu'n derbyn bod ganddynt gyfrifoldeb am y broses hon, mae’n bosibl eu bod yn teimlo bod y weithdrefn yn fwrn ac yn feichus oherwydd nad oes ganddynt y sgiliau angenrheidiol i sicrhau bod y broses dethol a chyfweld mor drwyadl ag y dylai fod.

11. Er mwyn helpu llywodraethwyr, rydym yn cynnig diwygio cyfansoddiad y panel penodi gan ddweud ei bod yn rhaid iddo gynnwys o leiaf un person annibynnol a fyddai'n cael pleidlais awtomatig yn y panel dethol.

12. Bwriedir y byddai gan yr unigolyn hwn y sgiliau a'r profiad iawn i helpu'r corff llywodraethu i ddirnad cryfderau a gwendidau ymgeiswyr mewn cyfweliad er mwyn sicrhau bod y person iawn yn cael ei benodi. Gallai hyn fod yn bennaeth profiadol sydd wedi bod yn bennaeth ers tro mewn ysgol lwyddiannus yn yr un dref neu yn

ardal yr un awdurdod lleol neu mewn ardal awdurdod arall, neu'n gyn-bennaeth. Penderfyniad i'r corff llywodraethu fyddai hyn gyda chyngor a chefnogaeth yr awdurdod lleol.

13. Er mwyn cymhwyso fel "person annibynnol" rhaid i unigolyn gyflawni'r un meini prawf "annibyniaeth" ag ymchwilydd annibynnol (Trafodir hyn ym mharagraff 4 uchod). Gellid penodi aelod cysylltiol yn berson annibynnol ar y panel penodi ar yr amod bod yr unigolyn yn cyflawni'r meini prawf hyn. *(Cofiwch nad ydym yn cynnig caniatáu i aelodau cysylltiol fod yn ymchwilwyr annibynnol).*

***C.55 Ydych chi o blaid y cynnig hwn i gael person annibynnol ar banelau dethol penaethiaid a dirprwy benaethiaid?***

***C.56 Ydych chi'n cytuno â'n cynnig y caiff aelod cysylltiol fod yn berson annibynnol, a bwrw ei fod yn cyflawni'r meini prawf "annibyniaeth"?***

**Prif Swyddog Addysg yr Awdurdod Lleol**

14. Rydym yn cynnig y dylid rhoi'r hawl i Brif Swyddog Addysg yr awdurdod lleol (neu gynrychiolydd y Prif Swyddog) sydd eisoes â'r hawl i fod yn bresennol ym mhob panel penodi a diswyddo athrawon mewn swyddogaeth gynghori, bleidleisio ar bob panel didoli a phenodi sy'n ymwneud â phenodi penaethiaid a dirprwy benaethiaid.

15. Mae'r dystiolaeth a glywsom yn awgrymu bod llawer o gyrff llywodraethu eisoes yn rhoi pleidlais i gynrychiolydd y Prif Swyddog Addysg beth bynnag oherwydd bod profiad ac amhleidioldeb y swyddog yn gallu bod yn amhrisiadwy i lywodraethwyr.

***C.57 Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i roi hawliau pleidleisio i Brif Swyddog Addysg yr awdurdod lleol priodol?***

**Cynrychiolwyr awdurdod egobaethol**

16. Mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir mae gan awdurdodau esgobaethol ar hyn o bryd yr un hawliau cynghori ar bob panel penodi a diswyddo ag sydd gan Brif Swyddog Addysg yr awdurdod lleol.

17. Pan fydd yr ysgolion hyn yn penodi penaethiaid neu ddirprwy benaethiaid, rydym hefyd yn cynnig rhoi pleidlais awtomatig i gynrychiolydd awdurdod esgobaethol ar banelau didoli a phenodi penaethiaid a dirprwy benaethiaid.

18. Mewn ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion sefydledig sydd ag ethos crefyddol, mae Rheoliadau 2006 ar hyn o bryd yn galluogi cyrff llywodraethu i roi i'r esgobaeth yr un hawliau cynghori ar banelau penodi a diswyddo ag a roddir i Brif Swyddog Addysg yr awdurdod lleol. Er mwyn sicrhau bod y trefniadau'n deg, rydym yn cynnig y caiff y corff llywodraethu benderfynu rhoi hawliau pleidleisio i gynrychiolydd yr esgobaeth ar banelau didoli a phenodi penaethiaid a dirprwy benaethiaid.

***C.58 Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i roi hawliau pleidleisio i gynrychiolwyr awdurdod esgobaethol?***

**Aelodaeth panelau penodi penaethiaid a dirprwy benaethiaid**
19. Oherwydd ein cynigion uchod yn bennaf, rydym yn cynnig newid aelodaeth panelau penodi penaethiaid neu ddirprwy benaethiaid.

20. O ran ysgolion cymunedol, ysgolion cymunedol arbennig, ysgolion meithrin a gynhelir ac ysgolion sefydledig heb ethos crefyddol, bydd y pwyllgor yn cynnwys rhwng 5 a 7 o aelodau sef:

- O leiaf 1 person annibynnol, er y caiff y corff llywodraethu benodi 2 ond dim mwy na hynny, os byddant yn credu bod hynny'n angenrheidiol
- Prif swyddog addysg yr awdurdod lleol neu ei gynrychiolydd
- O leiaf 3 llywodraethwr - mae'n bosibl cynnwys mwy na hyn ar yr amod nad yw cyfanswm yr aelodau'n fwy na 7.

21. Mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir bydd y pwyllgor yn cynnwys rhwng 7 a 9 o aelodau sef:

- O leiaf 1 person annibynnol, er y caiff y corff llywodraethu benodi 2 ond dim mwy na hynny os byddant yn credu bod hynny'n angenrheidiol
- Prif swyddog addysg yr awdurdod lleol neu ei gynrychiolydd
- Y swyddog esgobaethol priodol
- O leiaf 4 llywodraethwr – mae'n bosibl cynnwys mwy na hyn ar yr amod nad yw cyfanswm yr aelodau'n fwy na 9.

22. Mewn ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion sefydledig sydd ag ethos crefyddol:

- <u>Os bydd y corff llywodraethu wedi penderfynu rhoi pleidlais i'r swyddog esgobaethol</u> bydd aelodaeth y pwyllgor yr un fath ag ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir

- <u>Os bydd y corff llywodraethu wedi penderfynu PEIDIO â rhoi pleidlais i'r swyddog esgobaethol</u> bydd aelodaeth y pwyllgor yr un fath ag ar gyfer ysgolion cymunedol.

23. Fel sy'n wir ar hyn o bryd, rhaid i fwyafrif aelodau'r panel dethol fod yn llywodraethwyr. Dim ond llywodraethwyr nad ydynt yn cael eu talu i weithio yn yr ysgol ac nad ydynt ychwaith yn ddisgyblion yn yr ysgol a gaiff gadeirio'r panel dethol. Bydd pobl annibynnol, prif swyddog addysg yr awdurdod lleol a'r swyddog esgobaethol hefyd yn cael eu gwahardd rhag cadeirio panel dethol.

***C.59 Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer maint ac aelodaeth panelau dethol penaethiaid a dirprwy benaethiaid?***

**Panel penodi sy'n cynnwys y corff llywodraethu i gyd ar gyfer penodi penaethiaid a dirprwy benaethiaid mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir.**
24. Mae'r rheoliadau presennol yn caniatáu i gorff llywodraethu cyfan ysgol wirfoddol a gynorthwyir, yn hytrach na phanel penodi, gymryd rhan wrth ddethol penaethiaid neu ddirprwy benaethiaid.

25. Credwn fod gorfod ystyried barn nifer mawr o bobl mewn cyfweliad yn drefniant anhylaw a allai effeithio ar ba mor drwyadl yw'r broses.

26. Felly, cynigiwn na ddylai ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir allu cael y corff llywodraethu cyfan bellach yn banel penodi. Yn hytrach, rhaid i'r trefniadau a drafodwyd ym mharagraff 21 fod yn berthnasol bob tro i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir.

27. Pan fydd y penodiad sy'n cael ei ystyried yn benodiad pennaeth ar gyfer ysgol urdd grefyddol Gatholig Rufeinig rydym yn cynnig - yn ogystal â bod y chyfweld ag ymgeiswyr a gynigir gan yr Uchel Abad - y caiff y panel dethol hefyd gyfweld pa ymgeiswyr bynnag eraill ag y byddant yn eu hystyried yn addas.

***C.60 Ydych chi o blaid y cynigion hyn i roi'r gorau i banelau penodi sy'n cynnwys y corff llywodraethu cyfan a chaniatáu i banelau dethol gyfweld a phob ymgeisydd addas ar gyfer swydd pennaeth?***

## Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig – y ddyletswydd i hysbysu awdurdodau lleol

28. Rydym yn sylweddoli mai cyrff llywodraethu'r ysgolion hyn yw cyflogwr y staff.

29. Serch hynny, ac ystyried pwysigrwydd y rôl sydd gan awdurdodau lleol gyda golwg ar safonau a chyrhaeddiad addysgol disgyblion a hynny mewn ysgolion ym mhob categori - a'u cyfrifoldeb dros gynnal ac ariannu pob ysgol - rydym yn cynnig y dylai fod gan ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig ddyletswydd newydd lle bydd yn rhaid iddynt hysbysu'r awdurdod lleol yn ysgrifenedig pan fydd corff llywodraethu'n atal aelod o'r staff o'r gwaith neu'n ei ddiswyddo gan ddweud beth yw'r rhesymau dros hynny.

30. Yn yr un modd, pa bryd bynnag y bydd pennaeth yn atal aelod o'r staff o'i waith, rhaid hysbysu'r awdurdod lleol.

31. Mae'r dyletswyddau hyn ar hyn o bryd yn berthnasol i bob categori arall o ysgol, ac rydym yn credu ei bod yn deg bod yr un gofynion yn berthnasol i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac i ysgolion sefydledig.

***C.61 Ydych chi o blaid ein cynigion ei bod yn rhaid hysbysu'r awdurdod lleol pan fydd staff yn cael eu hatal o'u gwaith neu'n cael eu diswyddo o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig?***

# Rhan 5: Newidiadau arfaethedig i Reoliadau Addysg (Cylch Gwaith) Cymru (Rheoliadau 2000)

*Cynigir y Rhan a ganlyn o'r Rheoliadau Newydd sydd yn Atodiad A ddisodli Rheoliadau 2000:*

- Rhan 3: "Cylch gwaith: cyrff llywodraethu a phenaethiaid";

## Golwg gyffredinol

1. Mae Rheoliadau 2000 yn diffinio rôl y corff llywodraethu a'r pennaeth. Yn gyffredinol, maent yn rhoi rôl gymharol strategol i'r corff llywodraethu o ran rhedeg yr ysgol gan ddweud mai'r pennaeth sy'n gyfrifol am redeg y sefydliad o ddydd i ddydd.

2. Credwn y bydd ein cynigion ar gyfer cyrff llywodraethu mwy medrus - a fydd hefyd yn ddigon hyblyg i ymateb i ofynion eu hysgolion wrth i'r rheini newid - yn golygu y dylid cryfhau rôl y cyrff llywodraethu.

3. Rydym am fod yn glir bod rhan fawr o rôl strategol corff llywodraethu'n cynnwys gosod cyfeiriad strategol ac ethos yr ysgol yn ogystal â rheoli cyllideb yr ysgol yn effeithiol.

4. Rydym hefyd yn meddwl nad yw rôl y 'cyfaill beirniadol' i'r pennaeth a roddir i gyrff llywodraethu na'r ffaith ei fod yn gallu cynnig "beirniadaeth adeiladol" nac yn briodol nac o gymorth. Dylai llywodraethwyr fod yn gweithio mewn partneriaeth â phenaethiaid a'u cefnogi ond dylent hefyd fod yn eu dal yn atebol am berfformiad yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod targedau heriol yn cael eu gosod i sicrhau bod ysgol yn gwella.

## Rôl y corff llywodraethu

5. Rydym felly'n cynnig y bydd y Rheoliadau Newydd yn cryfhau rôl y corff llywodraethu i gynnwys:

a) Sicrhau bod cyfeiriad strategol ac ethos yr ysgol wedi'u diffinio'n glir
b) Sicrhau bod y pennaeth yn cyflawni ei gyfrifoldebau mewn ffordd sy'n gwella perfformiad addysgol yr ysgol
c) Sicrhau bod cyllideb yr ysgol ac adnoddau eraill yn cael eu defnyddio'n gadarn o briodol ac effeithiol.

6. Bydd rôl y llywodraethwyr wrth iddynt osod y cyfeiriad strategol yn dal i gynnwys y swyddogaethau sydd wedi'u rhestru ar hyn o bryd yn Rheoliadau 2000 sef gosod polisïau, nodau ac amcanion yr ysgol yn ogystal â gosod y targedau ar gyfer mesur y nodau a'r amcanion hynny.

7. Bydd y corff llywodraethu'n dal i fonitro ac adolygu'r targedau hynny ac yn ystyried unrhyw gyngor a gynigir gan y pennaeth.

***C.62 Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i gryfhau rôl y corff llywodraethu?***

## Rôl y pennaeth

8. Gan ein bod yn cryfhau rôl cyrff llywodraethu, rydym hefyd yn cynnig diwygio rôl y pennaeth i wneud ei berthynas â'r corff llywodraethu mor glir ag y bo modd.

9. Rydym yn cynnig y dylai'r pennaeth fod yn gyfrifol am berfformiad addysgol yr ysgol yn ogystal ag am ei threfniadaeth fewnol, ei rheolaeth a chadw trefn arni.

10. Rydym hefyd yn cynnig y bydd y pennaeth yn atebol i'r corff llywodraethu am gyflawni ei holl gyfrifoldebau gan gynnwys gwella perfformiad addysgol yr ysgol, a bydd ganddo ddyletswydd i gydymffurfio ag **unrhyw** gyfarwyddyd rhesymol gan y corff llywodraethu.

11. Bydd y pennaeth hefyd yn dal yn gyfrifol am bolisi cwricwlwm yr ysgol, a rhaid iddo barhau i adrodd bob blwyddyn i'r corff llywodraethu am y cynnydd a wneir tuag at gyflawni nodau, amcanion a thargedau'r ysgol.

12. Er y bydd y pennaeth yn gallu cynnig cyngor i'r corff llywodraethu, ni fydd yn uniongyrchol gyfrifol am lunio cyfeiriad strategol yr ysgol, ei hethos, ei nodau, ei hamcanion na'i pholisïau nac am osod targedau'r ysgol.

***C.63 Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ddiwygio rôl y pennaeth?***

## Rhan 6: Newidiadau arfaethedig i Reoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005 (Rheoliadau Lwfansau)

*Cynigir y dylai’r Rhan a ganlyn o'r Rheoliadau Newydd sydd yn Atodiad A ddisodli'r Rheoliadau Lwfansau:*

- Rhan 9: "Lwfansau".

1. Mae'r Rheoliadau ynglŷn â Lwfansau'n golygu bod modd i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir sydd a chyllidebau dirprwyedig yn gallu talu lwfansau i lywodraethwyr ac i aelodau pwyllgorau nad ydynt yn llywodraethwyr

2. Awdurdodir awdurdodau lleol hefyd i dalu lwfansau i lywodraethwyr ac i aelodau pwyllgorau nad ydynt yn llywodraethwyr pan na fydd gan ysgolion gyllideb ddirprwyedig, yn ogystal ag i bobl sy'n cynrychioli'r awdurdod lleol mewn sefydliad addysg bellach neu uwch neu ar gorff llywodraethu ysgol annibynnol neu ysgol arbennig a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

3. Mae'r Rheoliadau Newydd yn cyflwyno diweddariad technegol ynghylch sut y ceir cyfrifo uchafswm y lwfansau ar gyfer teithio a chynhaliaeth drwy ddweud bod y gyfradd yn gorfod cael ei phennu'n unol â Rhan 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

## Rhan 7: Newidiadau arfaethedig i Reoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009 (Rheoliadau 2009)

*Cynigir y dylai’r Rhan a ganlyn o'r Rheoliadau Newydd sydd yn Atodiad A ddisodli Rheoliadau 2009:*

- Rhan 10: "Newid amserau sesiynau ysgolion"

1. Ar hyn o bryd mae Rheoliadau 2009 yn galluogi cyrff llywodraethu ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig cymunedol, ysgolion meithrin a gynhelir ac ysgolion gwirfoddol a reolir i newid amser dechrau neu amser gorffen y diwrnod ysgol ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd ym mis Medi.

2. Caiff awdurdodau lleol hefyd newid amser dechrau ac amser gorffen diwrnod ysgol pob ysgol lle bydd angen y newidiadau hynny i hyrwyddo moddau cludiant cynaliadwy, neu i wella effeithlonrwydd neu hwylustod trefniadau teithio o dan Fesur Teithio i Ddysgwyr (Cymru) 2011. Serch hynny, dim ond ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd y ceir gwneud y newidiadau hyn.

3. Credwn fod y gofynion hyn yn rhy gaeth.

4. Rydym felly'n cynnig y caiff yr ysgolion hyn ac awdurdodau lleol roi newid o'r fath ar waith ar ddechrau unrhyw dymor ysgol, ar yr amod eu bod wedi ymgynghori'n briodol ac wedi rhoi tri mis o rybudd fan leiaf i rieni a staff.

***C.64 Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i alluogi newid amser dechrau ac amser gorffen y diwrnod ysgol ar ddechrau unrhyw dymor ysgol?***

## Rhan 8: Addasiadau a diwygiadau arfaethedig i reoliadau

*Cynigir y dylai'r Rhannau a ganlyn o'r Rheoliadau Newydd sydd yn Atodiad A addasu neu ddiwygio Rheoliadau eraill:*

- Rhan 11: "Addasiad i Reoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005" ac Atodlen 8
- Rhan 12: "Diwygiad i Reoliadau"

1. Mae diwygio a chydgrynhoi fframwaith rheoleiddio llywodraethu ysgolion yn unol â'r Rheoliadau Newydd yn Atodiad A yn golygu bod gofyn cael newidiadau i ddarnau eraill o is-ddeddfwriaeth.

2. Mae Rhan II ac Atodlen 8 yn addasu Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005[6] fel y maent yn berthnasol i gorff llywodraethu ffederasiwn a'i aelodau.

3. Mae Rhan 12 yn gwneud diwygiadau dilyniannol i ddiweddaru amrywiol gyfeiriadau mewn rheoliadau eraill i'r Rheoliadau Presennol, er mwyn iddynt gyfeirio at y darpariaethau priodol yn y Rheoliadau Newydd yn Atodiad A. Mae'r rheoliadau a gaiff eu diweddaru fel hyn yn cynnwys:

i. Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005

ii. Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Trosi o fod yn Fwrdd Gweithredol Interim) (Cymru) 2012[7]

iii. Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013[8]

iv. Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Clerc i Gorff Llywodraethu) (Cymru) 2013[9]

v. Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014[10]

vi. Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Newid Categori) (Cymru) 2015[11].

4. Mae Rheoliadau Cydweithio rhwng Cyrff Addysg (Cymru) 2012[12] ("y Rheoliadau Cydweithio") yn darparu ar gyfer cydweithio ar ffurf cydbwyllgor rhwng y cyrff llywodraethu, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol. Bydd diwygiadau dilyniannol i ddiweddaru cyfeiriadau at y Rheoliadau Presennol yn cael eu gwneud i'r Rheoliadau hyn hefyd.

---

6 S.I. 2005/3200 (W.236)
7 S.I. 2012/1643 (W.212)
8 S.I. 2013/2124 (W.207)
9 S.I .2013/2127 (W.208)
10 S.I. 2014/2677(W.265)
11 S.I. 2015/1521 (W.178)
12 S.I. 2012/2655 (W.278)

5. Diwygir y Rheoliadau Cydweithio hefyd i alluogi cydbwyllgorau i gadw cofnodion ar ffurf electronig, ac i egluro y caiff cyrff llywodraethu ddirprwyo'u swyddogaethau gyda golwg ar benodi staff ysgolion - ac eithrio penodi penaethiaid a dirprwy benaethiaid - i gydbwyllgorau cyrff addysg.

6. Mae'r rheoliadau'n gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2007[13] a Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli ac ati) (Cymru) 2014[14]. Serch hynny, nid yw'r newidiadau hyn yn rhoi dim cyfrifoldebau ychwanegol gyda golwg ar reoli Uned Cyfeirio Disgyblion, ac nid yw'r newidiadau hyn ychwaith yn trosglwyddo dim rhwymedigaethau ariannol ychwanegol. Gallai'r gallu i gynhyrchu nodiadau electronig ar gyfer cyfarfodydd hyd yn oed arwain at arbediad bach.

***Q65: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ddiwygio Rheoliadau Cydweithio rhwng Cyrff Addysg (Cymru) 2012 i alluogi cadw cofnodion electronig ac i egluro dirprwyo swyddogaethau, fel y'i disgrifir ym mharagraff 5.***

***Q66: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ddiwygio Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2007 a Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli ac ati) (Cymru) 2014?***

[13] S.I. 2007/1069 (W.109).
[14] S.I. 2014/2709 (W.270).

# Rhan 9: Amserlenni gweithredu, gan gynnwys gwneud Offerynnau Llywodraethu

*Gweler cynigion ar gyfer cychwyn y Rheoliadau hynny, gan gynnwys darpariaethau trosiannol ac arbedion yn Rhan 2 o'r Rheoliadau Newydd yn Atodiad A.*

## Golwg gyffredinol

1. Rydym yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o gyrff llywodraethu ysgolion yn dechrau gweithredu'n unol â'r Rheoliadau Newydd yr un pryd. Rydym yn cynnig y bydd hyn yn digwydd flwyddyn ar ôl i'r Rheoliadau Newydd ddod i rym.

2. Bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn gwneud yr Offerynnau Llywodraethu sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Newydd o fewn yr amserlen weithredu hon. Trafodir yr amserlen yn fanylach isod.

## Amserlen gweithredu arfaethedig

3. Rydym yn cynnig gohirio dyddiad dod i rym y Rheoliadau Newydd am chwe mis e.e. petai'r rheoliadau'n cael eu gwneud ar 1 Mehefin 2017 ni fyddent yn dod i rym tan 1 Rhagfyr 2017.

4. Ac eithrio o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraffau 7-9 isod, ein bwriad wedyn yw rhoi blwyddyn arall i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu wneud yr holl newidiadau angenrheidiol er mwyn i gyrff llywodraethu ddechrau gweithredu o dan y Rheoliadau Newydd ar yr un pryd.

5. Yn yr enghraifft a ddefnyddir uchod, mae hyn yn golygu y caiff cyrff llywodraethu – gyda chymorth eu hawdurdod lleol - rhwng 1 Mehefin 2017 ac 1 Rhagfyr 2018 ddrafftio Offerynnau Llywodraethu diwygiedig sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau newydd. Bydd yr Offerynnau Llywodraethu diwygiedig yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2018.

6. Bydd hyn yn rhoi cyfanswm amser "paratoi" o 18 mis i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu er mwyn iddynt ymgyfarwyddo â'r Rheoliadau Newydd a sicrhau bod gan bob ysgol Offeryn Llywodraethu newydd ar waith yn barod erbyn 1 Rhagfyr 2018.

7. Serch hynny, os bydd corff llywodraethu sefydledig yn amrywio ei Offeryn Llywodraethu ar ôl y dyddiad dod i rym - sef 1 Rhagfyr 2017 yn yr enghraifft uchod - rhaid iddo fod wedi'i gyfansoddi ac yn gweithredu'n unol â'r Rheoliadau Newydd o'r dyddiad pan ddaw'r amrywiad i rym os bydd hynny cyn 1 Rhagfyr 2018.

8. Yn yr un modd, os bydd corff llywodraethu dros dro'n dod yn corff llywodraethu sefydledig ar ôl y dyddiad dod i rym - sef 1 Rhagfyr 2017 yn yr enghraifft uchod - rhaid iddo weithredu o dan y Rheoliadau Newydd o ddyddiad ymgorffori'r ysgol newydd os bydd hyn cyn 1 Rhagfyr 2018. Os bydd corff llywodraethu dros dro'n cael ei sefydlu ar ôl y dyddiad dod i rym, yna, bydd yn gweithredu o dan y Rheoliadau Newydd o'r cychwyn.

9. Yn achos ffederasiynau, os bydd grŵp o ysgolion yn penderfynu ffedereiddio neu'n cael eu ffedereiddio gan yr awdurdod lleol ar ôl y dyddiad dod i rym ar 1 Rhagfyr 2017, neu os bydd ffederasiwn yn amrywio'i offeryn llywodraethu[15], yna, rhaid i'r ffederasiwn weithredu o dan y Rheoliadau Newydd o ddyddiad ymgorffori'r ffederasiwn newydd - neu o'r dyddiad pan ddaw'r amrywiad i rym - yn hytrach na disgwyl tan 1 Rhagfyr 2018.

***C.67 Ydy'r cynigion gweithredu hyn yn berthnasol ac yn rhai a allai weithio i gyrff llywodraethu ysgolion ac awdurdodau lleol?***

## Darpariaethau trosiannol ac arbedion ar gyfer pwyllgorau disgyblu a diswyddo staff a phanelau dethol penaethiaid/dirprwy benaethiaid

10. Rydym yn sylweddoli y gall fod rhai enghreifftiau lle bydd corff llywodraethu'n dechrau proses disgyblu neu ddiswyddo staff neu broses dethol pennaeth neu ddirprwy bennaeth o dan y fframwaith rheoleiddio presennol, ond na fydd yn llwyddo i gwblhau'r broses honno cyn i'r Rheoliadau Newydd gael eu rhoi ar waith.

11. Os bydd hyn yn digwydd, rydym yn cynnig y dylid caniatáu cyfnod arall o 6 mis lle y ceir cwblhau'r broses disgyblu neu ddethol honno drwy ddefnyddio'r gofynion rheoleiddio presennol. Os caiff y broses ei chwblhau cyn diwedd y cyfnod o 6 mis, bydd y gofynion rheoleiddio newydd yn berthnasol o'r dyddiad cwblhau ymlaen. Er enghraifft, rhaid i bob ysgol weithredu o fewn y Rheoliadau Newydd erbyn 1af Rhagfyr 2018. Os bydd corff llywodraethu'n dechrau proses disgyblu neu benodi pennaeth ym mis Tachwedd 2018 bydd ganddo tan fis Mai 2019 i gwblhau'r broses cyn iddo orfod dechrau defnyddio'r trefniadau newydd.

***C.68 Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ganiatáu 6 mis arall ar gyfer cwblhau prosesau disgyblu a diswyddo staff a dethol penaethiaid a dirprwy benaethiaid o dan y fframwaith rheoleiddio presennol?***

[15] Sylwer: bydd hyn hefyd yn berthnasol pan fydd ysgol yn ymuno â ffederasiwn sy'n bodoli eisoes neu'n ymadael â ffederasiwn o'r fath.

# Rhan 10: Asesiad effaith rheoleiddiol

## Golwg gyffredinol

1. Yn ogystal ag ymgynghori ynglŷn â'r Rheoliadau drafft Newydd, rydym hefyd yn ymgynghori ynglŷn ag asesiad effaith rheoleiddiol sy'n nodi'r costau a ragwelir i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu yn sgil rhoi'r Rheoliadau Newydd ar waith. Atodir yr Asesiad drafft yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad ei hun yn Atodiad C.

2. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys 3 opsiwn:

- Opsiwn 1 - gwneud dim
- Opsiwn 2 - gwneud y lleiaf posibl a diweddaru'r canllawiau statudol
- Opsiwn 3 - gwneud y Rheoliadau newydd.

3. Opsiwn 3 yw'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio. Rydym yn gwahodd pobl i fynegi barn am yr amcangyfrif o gostau'r opsiwn hwn i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion, Llywodraeth Cymru a chyrff eraill isod. (Mae'r amcangyfrif o'r costau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn wedi'u crynhoi mewn tabl ym mharagraff 146 o'r Asesiad.)

4. Rydym hefyd yn gwahodd pobl i fynegi barn am ein hamcangyfrif o unig fudd mesuradwy'r opsiwn hwn i gyrff llywodraethu ym mharagraff 125 o'r Asesiad.

## Costau i awdurdodau lleol

5. Rydym wedi amcangyfrif y costau i awdurdodau lleol yn sgil gwneud y newidiadau gofynnol i Offeryn Llywodraethu pob ysgol, a chynghori'r ysgolion ynglŷn â'r newidiadau a sut y bydd hyn yn effeithio arnynt. Mae paragraffau 37 i 56 o'r Asesiad yn rhestru ein tybiaethau ac yn esbonio sut yr ydym wedi amcangyfrif y costau sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth hon.

6. Fel rheol, bydd gan awdurdodau lleol 18 mis i newid yr Offeryn Llywodraethu ar gyfer eu hysgolion er mwyn iddynt i gyd weithredu o fewn y strwythur llywodraethu newydd ymhen blwyddyn ar ôl i'r Rheoliadau newydd ddod i rym - gweler manylion yr amserlen hon yn Rhan 9 o'r ddogfen hon.

7. Ni chredwn y bydd rhagor o gostau i awdurdodau lleol yn sgil y Rheoliadau newydd. Mae paragraffau 57 i 59 o'r Asesiad yn esbonio pam yr ydym yn credu hyn.

***C.69: Ydych chi'n cytuno â'r costau rydym yn eu hamcangyfrif i awdurdodau lleol wrth iddynt newid Offerynnau Llywodraethau eu hysgolion, a rhoi cyngor a chymorth i gyrff llywodraethu i'w paratoi ar gyfer cael eu cyfansoddi o dan y Rheoliadau newydd?***

***C.70 Ydych chi'n cytuno na fydd rhagor o gostau i awdurdodau lleol yn sgil y Rheoliadau newydd?***

## Buddion i awdurdodau lleol

8. Credwn na fydd dim buddion ariannol gwerth sôn amdanynt i awdurdodau lleol yn sgil y Rheoliadau Newydd. Mae paragraffau 61 - 62 o'r Asesiad yn esbonio pam yr ydym yn credu hyn.

***C 71 Ydych chi'n cytuno na fydd dim buddion ariannol gwerth sôn amdanynt i awdurdodau lleol yn sgil y Rheoliadau Newydd?***

## Costau i gyrff llywodraethu ysgolion

### Canolbwyntio ar lywodraethwyr medrus a newidiadau i'r gofynion cyfansoddiadol

9. Credwn na fydd cost i gyrff llywodraethu ysgolion yn sgil canolbwyntio ar recriwtio, penodi a chadw llywodraethwyr ysgolion ar sail eu sgiliau. Yn yr un modd, ni ddylai newid y gofynion cyfansoddiadol er mwyn rhoi'r hyblygrwydd i gyrff llywodraethu fod yn llai ac yn fwy ystwyth olygu cost. Mae paragraffau 64 i 72 o'r Asesiad yn esbonio pam yr ydym yn credu hyn.

***C.72 Ydych chi'n cytuno na fydd canolbwyntio ar lywodraethwyr medrus - a newid y gofynion cyfansoddiadol er mwyn i gyrff llywodraethu allu bod yn fwy hyblyg - yn golygu cost i gyrff llywodraethu?***

### Person annibynnol ar bwyllgorau disgyblu a diswyddo staff

10. Rydym hefyd wedi amcangyfrif costau ein cynigion i ysgolion gael person annibynnol sydd â hawliau pleidleisio llawn ar bob pwyllgor disgyblu a diswyddo staff ac ar bwyllgorau apêl.

11. Mae'r trefniant hwn eisoes wedi bwrw gwreiddiau ar gyfer pwyllgorau sy'n ymdrin â honiadau o niwed i blant; rydym yn ceisio estyn hyn i roi'r un lefel o gymorth i lywodraethwyr wrth iddynt ymdrin â materion camymddwyn difrifol eraill. Mae paragraffau 79 i 96 o'r Asesiad yn rhestru ein tybiaethau ac yn esbonio sut yr ydym wedi amcangyfrif y costau sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth hon.

***C.73 Ydych chi'n cytuno â'n hamcangyfrif o'r costau i gyrff llywodraethu o gael person annibynnol i'r holl bwyllgorau disgyblu a diswyddo staff?***

### Person annibynnol ar banelau penodi penaethiaid a dirprwy benaethiaid

12. Ein cynnig mawr olaf sydd wedi'i gostio ar gyfer cyrff llywodraethu yw darparu person annibynnol sydd â phrofiad ac arbenigedd ar bob panel sy'n penodi pennaeth a dirprwy bennaeth.

13. Gofynnwyd yn anffurfiol am wybodaeth gan bob awdurdod lleol am nifer y penaethiaid a dirprwy benaethiaid a benodwyd yn 2014/15, ac fe seiliwyd ein hamcangyfrif o'r costau ar yr atebion a gawsom. Mae paragraffau 97 i 113 o'r Asesiad esbonio'n fwy manwl sut yr ydym wedi amcangyfrif y costau sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth hon.

***C.74 Ydych chi'n cytuno a'n hamcangyfrif o'r costau i gyrff llywodraethu o gael person annibynnol ar banelau penodi penaethiaid a dirprwy benaethiaid?***

**Costau posibl eraill i gyrff llywodraethu**

14. Ni chredwn y bydd rhagor o gostau i awdurdodau lleol yn sgil y Rheoliadau newydd. Mae hyn yn cynnwys gorfod hysbysebu swyddi gwag i benaethiaid yn rhesymol o reolaidd ac o leiaf ddwywaith y flwyddyn nes i'r swydd gael ei llenwi, egluro a chryfhau rôl cyrff llywodraethu, diweddaru'r ffordd y caiff lwfansau llywodraethwyr eu cyfrifo a chaniatáu i ysgolion newid amserau sesiynau ysgolion ar ddechrau tymor, fel y nodir ym mharagraffau 114 i 120 o'r Asesiad.

***C.75 Ydych chi'n cytuno na fydd rhagor o gostau i awdurdodau lleol yn sgil y Rheoliadau newydd?***

## Buddion i gyrff llywodraethu

15. Fel yr esboniwyd ym mharagraffau 121-122 o'r Asesiad, ni fydd llawer o'r newidiadau a gyflwynir drwy'r Rheoliadau Newydd yn arwain at fanteision ariannol y gellir eu mesur i gyrff llywodraethu.

16. Serch hynny, credwn y bydd budd ariannol bychan i gyrff llywodraethu yn sgil gallu cadw cofnodion a chyfathrebu'n electronig, fel yr esboniwyd ym mharagraffau 123 i 125 o'r Asesiad.

***C.76 Ydych chi'n cytuno â'n barn am y buddion i gyrff llywodraethu?***

## Costau a buddion i Lywodraeth Cymru ac i gyrff eraill

17. Rydym wedi rhoi ein hamcangyfrifon o'r costau ac esboniad o'r buddion anariannol i Lywodraeth Cymru ym mharagraffau 129 i 133 o'r Asesiad.

18. Rydym wedi esbonio pam yr ydym yn credu na fydd goblygiadau o ran costau i gyrff eraill yn sgil y Rheoliadau Newydd (megis awdurdodau esgobaethol) - yn ogystal â'r posibilrwydd o fuddion anariannol i'r cyrff hyn - ym mharagraffau 134 i 140 o'r Asesiad.

***C.77 Ydych chi'n cytuno â'n hamcangyfrif o'r costau a'r buddion i Lywodraeth Cymru ac i gyrff eraill?***

## Dadansoddiad o effeithiau a dylanwadau eraill gan gynnwys ar faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb

19. Rydym wedi dadansoddi effaith bosibl y Rheoliadau Newydd ar gyfle cyfartal, y Gymraeg, datblygu cynaliadwy a hawliau'r plentyn ym mharagraffau 141 i 144 o'r Asesiad.

***C.78 Ydych chi'n cytuno â'n dadansoddiad o effeithiau posibl y Rheoliadau newydd ar y pedwar maes a grybwyllwyd uchod?***

***C.79 Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i'w weld yn Atodiad D. Byddem yn croesawu eich barn am yr Asesiad hwn ac am effaith bosibl ein holl gynigion ar:***

- ***Anabledd***
- ***Hil***
- ***Rhywedd ac ailbennu rhywedd***
- ***Oedran***
- ***Crefydd a chred a dim cred***
- ***Cyfeiriadedd rhywiol***
- ***Hawliau dynol.***

**C.80** ***Rhoddir Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn Atodiad E. Byddem yn croesawu eich barn am yr Asesiad hwn ac effaith bosibl ein cynigion ar blant.***

***C.81 Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau am ein cynigion ar gyfer llywodraethu ysgolion a'r Rheoliadau newydd, gan gynnwys gofyn am adborth i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith ar Blant. Os oes gennych unrhyw faterion neu sylwadau yr hoffech sôn amdanynt ar wahân i'r cwestiynau hyn, croeso ichi ddefnyddio'r lle hwn i wneud hynny.***

## Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r diwygiadau arfaethedig i gyfansoddiad ac aelodaeth cyrff llywodraethu'n canolbwyntio ar y sgiliau a'r profiadau y gall llywodraethwyr a darpar lywodraethwyr eu cynnig, a byddant yn rhoi'r hyblygrwydd i gyrff llywodraethu gael corff llywodraethu sydd yn gweddu i anghenion ysgolion unigol. Bydd diweddaru gofynion staffio'n help i sicrhau bod gwrandawiadau disgyblu staff yn ddiduedd, a bod yr ymgeiswyr gorau'n cael eu dewis i ddod yn benaethiaid ac yn ddirprwy benaethiaid.

Mae'r cynigion hefyd yn cynnwys cydgrynhoi'r holl Reoliadau Presennol sydd ar hyn o bryd yn darparu'r fframwaith llywodraethu ysgolion i greu un set hygyrch.

Gelwir fersiwn ddrafft y diwygiadau a'r cydgrynhoi arfaethedig o'r Rheoliadau Presennol yn "Rheoliadau Llywodraethu a Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2017" ac fe'u hatodir yn Atodiad A.

- Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000

  http://www.legislation.gov.uk/secondary/2000/3027

Fel y'i diwygiwyd gan y canlynol:

  - Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005

  http://www.legislation.gov.uk/2005/2913

  - Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Diwygio) (Cymru) 2009

  http://www.legislation.gov.uk/2009/2159

  - Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011

  http://www.legislation.gov.uk/2011/2940

- Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd (Cymru) 2005

  http://www.legislation.gov.uk/secondary/2005/2912

  Fel y'i diwygiwyd gan y canlynol:

  - Gorchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) (Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2010

  http://www.legislation.gov.uk/2010/1142

- Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005;

http://www.legislation.gov.uk/wsi/2005/2914/contents/made

Fel y'i diwygiwyd gan y canlynol:

- Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005

  http://www.legislation.gov.uk/secondary/2005/3200

- Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006;

  http://www.legislation.gov.uk/2006/873

- Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007

  http://www.legislation.gov.uk/2007/944

- Rheoliadau Addysg (Diwygiadau Amrywiol ynghylch Diogelu Plant) (Cymru) 2009

  http://www.legislation.gov.uk/2009/2544

- Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010

  http://www.legislation.gov.uk/secondary/2010/638

- Gorchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) (Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2010

  http://www.legislation.gov.uk/2010/1142

- Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 2, Arbedion a Darpariaethau Trosiannol) 2010

  http://www.legislation.gov.uk/2010/2582

- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 2, Arbedion a Darpariaethau Trosiannol) (Diwygio) a (Diwygiadau Canlyniadol) 2011
  http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/577/contents/made/welsh

- Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013

  http://www.legislation.gov.uk/2013/2124

- Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) 2014

http://www.legislation.gov.uk/2014/1609

  - Rheoliadau Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddiol 2013 (Gwelliannau Canlyniadau) (Methdaliad) a Deddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 (Gwelliannau Dilyniannol) 2016

  http://www.legislation.gov.uk/uksi/2016/481/contents/made

- Rheoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005

  http://www.legislation.gov.uk/2005/2915

  Fel y'i diwygiwyd gan y ganlynol:

  - Gorchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) (Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2010

  http://www.legislation.gov.uk/2010/1142

- Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006

  http://www.legislation.gov.uk/2006/873

Fel y'i diwygiwyd gan y canlynol:

  - Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007

  http://www.legislation.gov.uk/2007/944

  - Rheoliadau Addysg (Diwygiadau Amrywiol ynghylch Diogelu Plant) (Cymru) 2009

  http://www.legislation.gov.uk/2009/2544

  - Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2009

  http://www.legislation.gov.uk/2009/2708

  - Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2009

  http://www.legislation.gov.uk/2009/3161

  - Gorchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) (Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2010

  http://www.legislation.gov.uk/2010/1142

  - Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) 2014

http://www.legislation.gov.uk/2014/1609

- Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2016

http://www.legislation.gov.uk/2016/211

- Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009

  http://www.legislation.gov.uk/2009/572

  Fel y'i diwygiwyd gan y canlynol:

  - Gorchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) (Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2010

  http://www.legislation.gov.uk/2010/1142

- Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014

  http://www.legislation.gov.uk/2014/1132

  Fel y'i diwygiwyd gan y canlynol:

  - Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) 2014

  http://www.legislation.gov.uk/2014/1609

  - Rheoliadau Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddiol 2013 (Gwelliannau Dilyniannol) (Methdaliad) a Deddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 (Gwelliannau Dilyniannol) 2016

  http://www.legislation.gov.uk/uksi/2016/481/contents/made